

8042-02

City & Guilds Cymhwyster Craidd mewn Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2)

Pecyn Asesu

Fersiwn 1.2 - Mehefin 2022



Cynnwys

1. Cyflwyniad	3
Canllawiau cyffredinol ar gyfer darparu	4
2. Canllawiau i ddysgwyr	5
Trosolwg o'r asesiad	5
Cyfarwyddiadau ar gyfer y tasgau	6
Prosiect ymarferol	6
Trafodaeth dan arweiniad	10
3. Canllawiau i Aseswyr – Asesu ar y sgrin	11
4. Canllawiau i Aseswyr – Prosiect Ymarferol	13
Manylion asesu	13
Canllawiau penodol i dasgau	19
Canllawiau cyffredinol	20
Marcio a chanlyniadau asesiadau	23
5. Canllawiau'r Asesydd – Trafodaeth dan Arweiniad	28
Manylion asesu	29
Gofynion tystiolaeth	37
6. Canlyniadau'r Cymhwyster	38
Atodiadau	40
1. Asesu ar y sgrin	41
2. Ffurflenni Cofnodi'r Drafodaeth Dan Arweiniad	42

Gwybodaeth fersiwn

Fersiwn a dyddiad cyhoeddi	Newidiadau
f1 Awst 2021	Y ddogfen wreiddiol
f1.1 Ionawr 2022	Diweddarwyd y dull asesu – Trafodaeth dan Arweiniad (t3). Diweddarwyd dyddiad yr asesiadau ar y sgrin cyntaf yn Adran 3 – nawr ar gael o 1 Mawrth 2022 ymlaen. (t11).
f1.2 Mehefin 2022	Adran 3: Wedi diweddarau'r amodau asesu; Mae trothwyon graddau ar gyfer yr asesiad ar-sgrin wedi'u diweddarau; wedi diweddarau'r wybodaeth am ganlyniadau (t11)

1. Cyflwyniad

Beth sydd yn y ddogfen hon?

- Meini prawf a strwythur yr asesiad
- Tasgau a chanllawiau i ddysgwyr
- Canllawiau i aseswyr ar asesiadau, tasgau a graddio

Trosolwg o asesiadau

Diben yr asesiadau yw galluogi dysgwyr i ddangos yr wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth sydd wedi'u nodi yng nghynnwys y cymhwyster.

Bydd y dysgwyr yn cael eu hasesu mewn nifer o ffyrdd er mwyn dangos yr hyn maent wedi'i ddysgu yn glir. Ar gyfer y cymhwyster hwn, rhaid i ddysgwyr gwblhau'r canlynol yn llwyddiannus:

- **Asesiad ar y sgrin** sy'n cynnwys amryw o fathau o gwestiynau amlddewis
- **Prosiect ymarferol** sy'n cynnwys tair adran lle mae angen i'r dysgwr ddangos ei sgiliau cynllunio, perfformio a gwerthuso
- **Trafodaeth dan arweiniad** sy'n cynnwys dwy adran, gan gynnwys adran lle mae'r dysgwr yn pwysu a mesur sut aeth ati i gwblhau ei brosiect ymarferol.

Oherwydd natur yr asesiadau, rhaid i'r prosiect ymarferol gael ei gwblhau cyn y trafodaeth dan arweiniad.

Y strwythur asesu

Asesiad	Asesu ar y sgrin	Prosiect ymarferol	Trafodaeth dan arweiniad
Dull gweithredu	Wedi'i osod a'i farcio'n allanol	Wedi'i gosod a'i dilysu'n allanol, a'i marcio'n fewnol	Wedi'i osod yn fewnol, ei farcio'n fewnol, a'i ddilysu'n allanol
Allbwn	Gradd	Gradd	Gradd
Canlyniad	Pasio/Methu	Pasio/Methu	Pasio/Methu

Canllawiau cyffredinol ar gyfer darparu

Cyflwyno'r asesiad i'r dysgwyr

Rhaid i'r asesydd gyflwyno pob asesiad i'r dysgwr pan ystyrir bod y dysgwr yn barod ac wedi paratoi i gwblhau'r asesiad. Rhaid i hyn ddigwydd yn dilyn cyfnod o ddysgu ac asesu ffurfiannol. Rhaid i'r asesydd roi trosolwg llawn ar y broses asesu a'r gwahanol asesiadau i'r dysgwr fel bo'r dysgwr yn gwbl glir beth wy'r daith asesu cyn dechrau eu hasesiad cyntaf.

Bydd rhyddhau'r asesiad i'r dysgwr yn cadarnhau bod gan yr asesydd mewnol ffydd bod y dysgwr wedi derbyn digon o addysgu ac arweiniad i fod wedi datblygu dealltwriaeth fanwl fydd yn rhoi cyfle iddynt ymateb yn llwyddiannus i bob un o'r tasgau.

Amseru rhwng asesiadau

Dim ond ar ôl i ddysgwyr gwblhau'r Prosiect Ymarferol y gall y Drafodaeth Dan Arweiniad ddigwydd. Rhaid i ganolfannau drefnu i bontio'n hwylus rhwng y ddau asesiad hwn. Oherwydd bod y drafodaeth yn seiliedig ar brosiect y dysgwr, argymhellir na ddylid gadael bwlch o ddim mwy na thair wythnos rhwng pryd fydd y dysgwr wedi cwblhau'r prosiect a chynnal y Drafodaeth dan Arweiniad.

Gellir cwblhau'r asesiad Ar-sgrin ar unrhyw adeg yn y broses asesu, er mai'r argymhelliad yw bod hyn yn digwydd cyn y Prosiect Ymarferol a'r Drafodaeth dan Arweiniad.

Cyfle cyfartal ac amrywiaeth

Mae'r Consortiwm yn disgwyl y bydd gan unigolion fynediad cyfartal at yr asesiad hwn beth bynnag yw eu rhyw, statws priodasol, oed, crefydd, lliw, hil, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu anabledd. Hynny yw, drwy gydymffurfio â'r gyfraith berthnasol ar gydraddoldeb.

Rhaid i ganolfannau fod â pholisi yn ei le i sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethu union nac anuniongyrchol yn digwydd, nac o ganlyniad i bwysau gan gyrrff eraill. Rhaid i'r polisi hwn fod yn berthnasol i bob canolfan loeren a dylai fod trefniadau yn eu lle i fonitro cymhwysiad a pha mor effeithiol yw'r polisi. Os na fydd cwynion am faterion anghydraddoldeb yn cael eu datrys yn foddhaol gan y Ganolfan, er y bydd hynny'n annhebygol, rhaid hysbysu dysgwyr bod ganddynt hawl i apelio i'r Consortiwm drwy'r trefniadau a ddisgrifir yn ein Polisi Apelio.

Lefel iaith

Mae'r asesiad wedi'i fwriadu ar gyfer dysgwyr yng Nghymru. Nid prawf o ddeall Cymraeg na Saesneg ydyw. Felly, ac eithrio yn achos termau technegol sy'n briodol i bwrpas a lefel yr asesiad, rhaid i'r iaith fod ar lefel sy'n briodol i'r dysgwr. Rhaid i aseswyr hefyd ofalu i sicrhau bod y defnydd o iaith yn ystyried nad Cymraeg / Saesneg fydd iaith gyntaf neu iaith ychwanegol pob dysgwr.

Llên-ladrad

Gall yr asesydd egluro cyfarwyddiadau'r dasg a'r dulliau ar gyfer cadw gwaith ond ni all gynorthwyo yn ystod yr asesiad mewn unrhyw ffordd.

Asesiad yw hwn o alluoedd y dysgwr, felly rhaid i'r gwaith fod yn waith y dysgwr yn gyfan gwbl a'i gyflawni o dan yr amodau a nodir yn y ddogfen hon.

Pan ganiateir gwaith ymchwil, rhaid i'r tiwtor/asesydd allu nodi pa waith y mae'r dysgwr wedi'i wneud ei hun, a beth mae'r dysgwr wedi'i ganfod o ffynonellau eraill. Felly, mae'n bwysig gwneud yn siŵr bod y dysgwr yn cydnabod pob ffynhonnell ac yn cyfeirio'n glir at unrhyw wybodaeth a gafwyd ganddynt.

Cam-ymddygiad Academiaidd

Lle mae'r asesydd yn amau cam-ymarfer gan y ganolfan/dysgwr – gan gynnwys cyd-gynllwynio neu gam-ymddygiad academiaidd, rhaid riportio hyn yn unol â pholisi cam-ymarfer City & Guilds sydd ar gael ar wefan [City and Guilds](#).

2. Canllawiau i ddysgwyr

Trosolwg o'r asesiad

Mae angen i chi gwblhau'r asesiadau canlynol:

Asesu ar y sgrin

Bydd yr asesiad ar y sgrin yn cynnwys amryw o wahanol fathau o gwestiynau amlddewis ac yn asesu eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth ac draws yr unedau craidd.

Prosiect ymarferol

Bydd y prosiect ymarferol yn asesu eich gallu yn y maes crefft o'ch dewis, a bydd angen i chi wneud y canlynol:

- **Cynllunio'r** gwaith sy'n ofynnol ar gyfer y grefft o'ch dewis, gan ystyried sut byddai'r gwaith yn cael ei wneud yng nghyd-destun prosiect adeiladu ehangach
- **Cyflawni** elfen o'r gwaith ar ffurf prosiect ymarferol, gan ddangos sgiliau'r grefft o'ch dewis
- **Adolygu** eich gwaith ar sail ar eich cynllun a'r elfennau allweddol i'w cyflawni.

Mae'r prosiect ymarferol hefyd wedi cael ei ddylunio i sicrhau eich bod yn cael cyfle i ddangos sgiliau cyflogadwyedd ehangach, gan gynnwys:

- Rheoli amser
- Cynllunio'n effeithiol
- Pennu targedau personol
- Datrys problemau.

Rhaid i chi gwblhau tasgau'r prosiect o fewn y cyfnodau amser a nodir yng nghyfarwyddiadau'r dasg. Bydd y prosiect yn cael ei asesu'n fewnol a'i ddilysu'n allanol.

Trafodaeth dan arweiniad

Ar ôl cwblhau eich prosiect ymarferol, bydd angen i chi gwblhau trafodaeth dan arweiniad. Bydd y drafodaeth dan arweiniad yn archwilio eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o weithio yn y sector Adeiladu ac Amgylchedd Adeiledig, yn ogystal â'r maes crefft yr ydych wedi'i astudio. Bydd gofyn i chi yn y drafodaeth bwysu a mesur y prosiect ymarferol rydych chi wedi'i gwblhau, ac ystyried sut byddwch chi'n gweithio yn y sector Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu.

Cyfarwyddiadau ar gyfer y tasgau

Prosiect ymarferol

Asesiad ffurfiol yw hwn a byddwch yn cael eich marcio ar ansawdd a chywirdeb eich perfformiad ymarferol. Felly, mae'n bwysig eich bod yn cyflawni'ch gwaith i'r safon uchaf bosibl. Dylech chi ddangos pa mor dda yw eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r grefft o'ch dewis, a sut rydych chi'n gallu defnyddio cyfuniad o'ch gwybodaeth a'ch sgiliau i gyflawni'r tasgau.

Bydd eich asesydd yn rhoi briff prosiect ar wahân i chi ar gyfer eich maes crefft.

Mae angen i chi gwblhau tair adran yr asesiad (Cynllunio, Gwneud, Adolygu) yn y drefn a amlinellir yma.

Cynllunio

Cwblhau tasgau cynllunio 1, 2, 3, 4 a 5 **o fewn 10 awr**, os byddwch yn cwblhau'r tasgau hyn yn gynt, **ni allwch** ddefnyddio'r amser ychwanegol ar gyfer eich tasgau eraill.

Mae angen ymatebion ysgrifenedig ar gyfer y tasgau cynllunio.

Dylid darparu'r ymatebion ysgrifenedig fel ymatebion electronig wedi'u teipio. Dylech wneud yn siŵr bod eich gwaith yn daclus, hynny yw, defnyddio ffont safonol mewn maint darllenadwy (fel Times New Roman, neu ffont cyfatebol, maint 12), defnyddio bylchiad dwbl a chynnwys ymylon digonol.

Cynllunio – ar gyfer y diwydiant adeiladu

Wrth gynllunio tasgau 1-3 ystyriwch eich prosiectau crefft yng nghyd-destun y diwydiant Adeiladu ac Amgylchedd Adeiledig ehangach. Mae angen un ymateb ar gyfer pob un o'r tasgau hyn.

1. Ar gyfer y maes crefft o'ch dewis, rhowch drosolwg o'r llwybr gyrfa ac unrhyw ddatblygiad gyrfa yn y dyfodol y gellid ei gyflawni.

Mae'n ofynnol i chi wneud ymchwil i'r gwaith sydd ar gael yn y maes crefft o'ch dewis a rhestru swyddi gwag posibl, gan restru'r gwahanol ffynonellau gwybodaeth ac adnoddau a ddefnyddiwyd (cylchgronau crefft, masnachwyr, chwilio am swyddi ar y rhyngryd, defnyddio gwefannau cyflogwyr ac ati).

2. Mae'n ofynnol i chi ystyried a chyfrifo cost cwblhau'r gwaith ar gyfer tasgau ymarferol eich prosiect.

Cyfeiriwch at y wybodaeth a ddarparwyd gan eich asesydd am faint yr elw a'r gost; defnyddiwch y wybodaeth a ddarparwyd i gwblhau'r tasgau canlynol (darperir gwybodaeth am gostau ar gyfer eich crefft):

- a) Gan ddefnyddio'r wybodaeth am gostau a ddarparwyd, **cyfrifwch y brif gost** sydd ei hangen i gyflawni tasgau'r prosiect ar gyfer y grefft o'ch dewis
 - b) Gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd am faint yr elw, **cyfrifwch y pris i'r cwsmer, a'r elw (wedi'i gyllidebu) yr ydych yn disgwyl ei wneud o'r gwaith yma.**
3. Gan ystyried y maes crefft o'ch dewis, eglurwch yn fyr pam mae ansawdd mor bwysig yn y grefft hon ac yn cael effaith mor fawr ar enw da a busnes.

Cynllunio – ar gyfer prosiectau crefft

Bydd tasgau cynllunio 4-5 yn canolbwyntio ar gynllunio eich prosiect crefft ymarferol yn benodol. Bydd angen i chi gwblhau tasgau cynllunio 4 a 5 ar gyfer eich **dwy grefft**.

4. Gan gyfeirio at y tasgau ymarferol, mae gofyn i chi ddatblygu rhestr deunyddiau, rhestr offer a chyfarpar angenrheidiol a datganiad dull sy'n cynnwys:
 - Meysydd lle rydych chi'n meddwl bod angen i chi ryngweithio â thrydydd partion
 - Y prif beryglon a risgiau (wrth ddefnyddio deunyddiau niweidiol, ac ati) wrth gyflawni'r tasgau ymarferol
 - Gofynion o ran gwaredu gwastraff ac ailgylchu deunyddiau a ddefnyddir yn y tasgau ymarferol.

Rhaid cyflwyno dogfennau cynllunio gan ddefnyddio profforma priodol ar gyfer y grefft a'r dasg dan sylw. Mae gofyn i chi gael y ffurflenni o ffynonellau priodol (ee, darparwr dysgu, cyflogwr perthnasol i'r grefft) i ategu eich ymateb i'r dasg hon.

5. Adolygu'r dasg ymarferol yn y maes crefft o'ch dewis a gosod eich meini prawf perfformiad eich hun ar gyfer cwblhau'r tasgau. Rhaid i chi gynnwys amserlenni o fewn y meini prawf perfformiad hyn.

Ar ôl cwblhau tasgau cynllunio 4-5, bydd dau gopi o'ch cynllun crefft yn cael ei wneud; byddwch yn cadw copi i'w ddefnyddio ar gyfer eich tasg(au) a rhaid cyflwyno'r llall i'ch asesydd.

Gwneud

Mae gennych 20 awr i gwblhau'r tasgau ymarferol ar gyfer y naill grefft a'r llall (40 awr i gyd). Os byddwch yn cwblhau un grefft mewn llai nag 20 awr, **ni allwch** ddefnyddio'r amser ychwanegol ar gyfer eich crefft arall.

Ar gyfer eich maes crefft mae'n ofynnol i chi gyflawni'r tasgau ymarferol fel y'u diffinnir ym mrieff y prosiect ac fel yr ydych wedi'u cynllunio yn yr adran Gynllunio. Dylech ddefnyddio'ch rhestr deunyddiau, y datganiad dull a'r cynlluniau a ddatblygwyd yn y tasgau cynllunio i gwblhau'r dasg ymarferol.

Bydd angen i chi sicrhau eich bod yn gweithio mewn ffordd sy'n bodloni gofynion iechyd a diogelwch bob amser yn ystod y dasg ymarferol.

Adolygu

Bydd tasgau adolygu 1-2 yn canolbwyntio ar eich adolygiad a'ch gwerthusiad o'ch prosiect crefft. Bydd angen i chi gwblhau tasgau adolygu 1 a 2 ar gyfer y maes crefft o'ch dewis.

Mae gennych chi gyfanswm o **2.5 awr** i gwblhau tasgau adolygu 1 a 2 ar gyfer eich prosiect crefft.

1. Mae gofyn i chi adolygu a gwerthuso canlyniad eich tasg ymarferol, yn erbyn y meini prawf perfformiad a bennwyd ymlaen llaw. Dylech roi manylion y gwaith a gwblhawyd a pha mor dda yn eich barn chi yr oedd y canlyniad terfynol yn bodloni briff cychwynnol y prosiect.
2. Mae gofyn i chi werthuso eich perfformiad eich hun wrth gynllunio a chwblhau'r dasg ymarferol. Dylech nodi unrhyw feysydd i'w gwella neu lle'r ydych wedi rhagori ar eich meini prawf, gwersi yr ydych wedi'u dysgu a sut y byddech yn ymdrin â'r tasgau neu'n eu cwblhau y tro nesaf y byddai rhaid i chi eu cwblhau.

Mae angen ymatebion ysgrifenedig ar gyfer y tasgau adolygu.

Dylid darparu'r ymatebion ysgrifenedig fel ymatebion electronig wedi'u teipio. Dylech wneud yn siŵr bod eich gwaith yn daclus, hynny yw, defnyddio ffont safonol mewn maint darllenadwy (fel Times New Roman, neu ffont cyfatebol, maint 12), defnyddio bylchiad dwbl a chynnwys ymylon digonol.

Crynodeb o asesiad prosiect

Mae'r tabl cryno isod yn amlinellu'r hyn y bydd angen i chi fod wedi'i gwblhau ar gyfer asesiad y prosiect.

Cynllunio	
Tasg 1	1 ymateb
Tasg 2	1 ymateb
Tasg 3	1 ymateb
Tasg 4	1 ymateb ar gyfer maes Crefft
Tasg 5	1 ymateb ar gyfer maes Crefft
Gwneud	
	1 gweithgaredd wedi'i gyflawni ar gyfer maes Crefft
Adolygu	
Tasg 1	1 ymateb ar gyfer maes Crefft
Tasg 2	1 ymateb ar gyfer maes Crefft

Amodau asesu

Bydd staff y ganolfan yn goruchwylio pob adran yn yr asesiad hwn.

Bydd cam cynllunio'r asesiad hwn yn cael ei gyflawni mewn ystafell ddosbarth, lle bydd angen mynediad at gyfarpar TG ac adnoddau priodol arnoch chi er mwyn gwneud ymchwil i ategu eich gwaith cynllunio. Gallai'r deunyddiau hyn gynnwys nodiadau cyfarwyddyd, rheoliadau a chyfarwyddiadau/llynyddiaeth gweithgynhyrchwyr. Ar ôl gorffen eich cynllun, rhaid i chi ei gyflwyno i'ch asesydd a chadw copi i'w ddefnyddio yn elfen ymarferol y prosiect.

Bydd elfen ymarferol ('gwneud') yr asesiad hwn yn cael ei gynnal yng ngweithdy'r ganolfan.

Bydd cam gwerthuso ('adolygu') yr asesiad hwn yn cael ei gyflawni dan oruchwyliaeth mewn ystafell ddosbarth, lle bydd gennych chi fynediad at eich dogfennau cynllunio i ategu eich gweithgareddau adolygu a gwerthuso.

Llên-ladrad

Gall eich asesydd egluro cyfarwyddiadau'r dasg a dulliau cadw gwaith ond ni all helpu mewn unrhyw ffordd yn ystod yr asesiad. Asesiad o'ch gallu chi yw hwn felly eich gwaith chi yn unig ddylai'r gwaith fod, a rhaid iddo gael ei gyflawni dan yr amodau a nodir.

Pan ganiateir ymchwil, rhaid i'ch tiwtor/asesydd allu nodi pa waith rydych chi wedi'i wneud eich hun a pha waith rydych chi wedi'i ganfod o ffynonellau eraill. Felly, mae'n bwysig eich bod yn cydnabod yr holl ffynonellau ac yn cyfeirnod unrhyw wybodaeth rydych chi wedi'i defnyddio o'r ffynonellau hynny yn glir.

Amseru a chynllunio

Mae'r amser ar gyfer y prosiectau wedi cael eu nodi ar y briff ar gyfer y prosiect sy'n benodol i'r crefftau. Bydd gennych 15 awr i gwblhau'r holl dasgau sy'n ofynnol yn adran Gynllunio'r asesiad.

Lechyd a Diogelwch

Rhaid i chi weithio'n ddiogel bob amser. Rhaid i chi ddilyn yr holl reoliadau iechyd a diogelwch ac unrhyw godau ymarfer perthnasol sy'n berthnasol i'ch maes crefft chi.

Os bydd eich tiwtor/asesydd yn eich gweld yn gweithio mewn modd nad yw'n ddiogel i chi neu bobl eraill, bydd yn gofyn i chi roi'r gorau iddi ar unwaith ac yn esbonio pam y gwnaeth hynny. Gallai hyn olygu eich bod yn methu eich asesiad, yn ddibynnol ar ba mor ddifrifol oedd y camwedd.

Cyflwyno gwaith

Dylech wneud yn siŵr bod pob darn o waith wedi'i labelu'n glir gyda'ch enw, rhif y ganolfan, eich rhif dysgwr, a chyfeirnod yr asesiad.

Rhaid cadw pob ffeil electronig gan ddefnyddio'r fformat canlynol: CYFENW_ENW CYNTAF_ENW'R ASESAD_DYDDIAD

Trafodaeth dan arweiniad

Diben y drafodaeth dan arweiniad yw cadarnhau:

- Eich gallu i adolygu a phwyso a mesur y tasgau rydych wedi'u cwblhau, a dangos beth rydych chi wedi'i ddysgu wrth gyflawni'r tasgau hyn.
- Eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o sut byddwch yn gweithio yn y sector adeiladu, gan ystyried y gwaith rydych wedi'i wneud a'r pethau y bydd angen i chi eu hystyried wrth i chi symud ymlaen yn eich gyrfa
- Eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o sut i reoli eich lles, eich iechyd a'ch llesiant eich hun wrth weithio yn y sector adeiladu.

Bydd y drafodaeth dan arweiniad yn cynnwys 3 elfen, gan gynnwys gwerthuso eich prosiect crefft, cyflogaeth a chyflogadwyedd, a llesiant yn y sector adeiladu a pheirianeg gwasanaethau adeiladu. I basio'r drafodaeth dan arweiniad, **rhaid i chi gael o leiaf 1 marc ym mhob elfen** o'r drafodaeth.

Mae'r drafodaeth dan arweiniad yn canolbwyntio ar y maes crefft o'ch dewis a'ch gwaith yn pwysu a mesur y gwaith a wnaed fel rhan o'ch prosiect ymarferol. Byddwch yn gallu dewis y grefft yr hoffech ganolbwyntio arni. Bydd y dystiolaeth o'ch prosiect gorffenedig ar gael i chi gyfeirio ati yn y drafodaeth dan arweiniad.

Rhoddir gwybod i chi y bydd eich asesydd yn recordio'r drafodaeth dan arweiniad at ddibenion asesu.

Amser

Bydd y drafodaeth dan arweiniad yn para 40 munud.

Amodau asesu

Trafodaeth dan arweiniad; caiff ei chynnal gydag asesydd dan amodau tawel heb darfu.

Gwybodaeth i ategu'r gwaith paratoi ar gyfer y drafodaeth dan arweiniad:

Yn yr asesiad, bydd asesywyr yn ceisio casglu tystiolaeth ar draws y meysydd trafod canlynol:

Uned 102 1.1 Prif grefftau y diwydiant adeiladu. 1.2 Prif grefftau y diwydiant gwasanaethau adeiladu.
Uned 103 3.3 Cysylltiadau gweithio effeithiol a chynhyrchiol rhwng gwahanol grefftau.
Uned 104 1.1 Contractau cyflogaeth ar gael yn y diwydiant 1.2 Dod o hyd i gyfleoedd am waith a phrentisiaethau yn y diwydiant. 2.1 Ymddygiad ac etheg gwaith 2.2 Technegau datrys problemau. 2.3 Sgiliau rhyngpersonol a gweithio mewn tîm.
Uned 105 2.3 Lles personol
Maes crefft <i>Bydd hyn yn berthnasol i'r maes crefft o'ch dewis.</i>
Gwerthuso yn erbyn safonau. Dadansoddiad o berfformiad. Dadansoddi eich perfformiad gwaith wrth gyflawni tasgau cyffredin yn y grefft hon mewn perthynas â'r gofynion gosod a'ch meini prawf llwyddo chi eich hun. Bydd hyn yn ymhelaethu ar sut y bu i chi gynllunio, paratoi a chyflawni eich tasgau, a sut y bydd cwblhau'r rhain yn cefnogi eich gwaith yn y dyfodol.

3. Canllawiau i Aseswyr – Asesu ar y sgrin

Cyflwyniad

Mae'r asesiad ar y sgrin yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ar draws y meysydd dysgu craidd.

Bydd asesiadau ar y sgrin ar gael o 1 Mawrth 2022 ymlaen.

Gwybodaeth asesu

Nifer cwestiynau	45						
Marciau ar gael	45						
Graddio	Mae'r tabl isod yn dangos trothwyon Pasio/Methu yr asesiad ar y sgrin. <table border="1"><thead><tr><th>Marciau (Enghraifft o brawf sampl)</th><th>Canlyniad yr Asesiad</th></tr></thead><tbody><tr><td>0 - 21</td><td>Methu</td></tr><tr><td>22 - 45</td><td>Pasio</td></tr></tbody></table>	Marciau (Enghraifft o brawf sampl)	Canlyniad yr Asesiad	0 - 21	Methu	22 - 45	Pasio
Marciau (Enghraifft o brawf sampl)	Canlyniad yr Asesiad						
0 - 21	Methu						
22 - 45	Pasio						
Math o gwestiynau	Aml-ddewis						
Amser a ganiateir	70 munud						
Argaeledd	Mae'r asesiad hwn ar gael ar y sgrin ar alw o 1 Mawrth 2022. Mae canolfannau'n gallu 'archebu' profion ar gyfer eu dysgwyr ar ddyddiad ac amser sy'n gyfleus iddynt. Bydd dysgwyr yn sefyll yr asesiad yn ddiogel drwy'r platfform ar-lein.						
Amodau asesu	Bydd y prawf yn cael ei gynnal ar-lein ac yn cael ei farcio'n electronig. Does dim angen dilysu mewnol nac allanol. Rhaid i asesiadau gael eu goruchwylio gan aelod o staff sydd wedi cael hyfforddiant goruchwylio. Ni chaniateir deunydd cyfeirio. Mae angen cyfrifiannell nad yw'n un y gellir ei rhaglennu.						
Canlyniadau	Mae'r canlyniadau ar gyfer y 50 dysgwr cyntaf yn cael e'u dal a'u hadolygu gan City & Guilds fyny at 20 diwrnod gwaith o ddyddiad yr asesiad ar gyfer fersiynau newydd wrth iddynt gael eu rhyddhau. Yn dilyn yr adolygiad hwn, a fel arall bydd canlyniadau yn cael eu rhyddhau yn syth ar ôl yr asesiad.						
Trefniadau ailsefyll	Mae dysgwyr sy'n methu cael y marc pasio gofynnol yn yr asesiad yn cael cyfle i ailsefyll. Does dim cyfyngiad ar sawl gwaith caiff dysgwyr ailsefyll yr asesiad. Gall dysgwyr gyflawni'r ystod lawn o farciau a graddau sydd ar gael wrth ailsefyll.						

Manylion Asesu – Asesu ar y sgrin

Mae'r fanyleb asesu isod yn rhoi trosolwg lefel uchel o gwmpas yr asesiad ar y sgrin.

Uned	Cwestiynau fesul uned
101: Cyflwyniad i'r Amgylchedd Adeiledig	5
102: Cyflwyniad i'r crefftau yn y Sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig	4
103: Cyflwyniad i gylch bywyd yr amgylchedd adeiledig	14
104: Cyflogadwyedd yn y Sector Adeiladu ac Amgylchedd Adeiledig	3
105: Amddiffyn iechyd, diogelwch a'r amgylchedd wrth weithio yn y Sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig	13
106: Cyflwyniad i dechnolegau datblygol yn y Sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig	6
Cyfanswm y cwestiynau	45

4. Canllawiau i Aseswyr – Prosiect Ymarferol

Cyflwyniad

Mae gofyn i ddysgwyr gwblhau asesiad prosiect ymarferol sy'n cwmpasu'r maes crefft y maent wedi'i astudio. Mae'r cyfarwyddiadau tasgau a roddir i ddysgwyr yn rhai generig ar gyfer pob crefft, gyda gwybodaeth benodol am gostau a briffiau prosiect yn cael eu datblygu ar gyfer pob crefft – mae'r wybodaeth hon i'w gweld yn y Pecyn Prosiect Ymarferol sydd ar gael ar wefan y Consortiwm. Mae cyfarwyddiadau'r dasg yn nodi ble mae'n ofynnol i ddysgwyr ddarparu ymateb neu ymgymryd â gweithgaredd ar draws y ddwy grefft neu ymgymryd ar wahân â thasgau neu weithgareddau ar gyfer y naill grefft a'r llall, ar sail y briff perthnasol. Rhaid i'r asesydd ddarparu'r wybodaeth am gostau sy'n benodol i'r grefft a'r briff prosiect sy'n ofynnol i'r dysgwr cyn dechrau'r asesiad.

Mae briffiau prosiect enghreifftiol ar gael yn y Pecyn Prosiect Ymarferol – Dogfen enghreifftiol sydd i'w weld ar wefan y Consortiwm.

Ar gyfer asesu, dylid lawrlwytho'r Pecyn Prosiect Ymarferol byw cyfredol sy'n cynnwys briffiau prosiect penodol i grefft (bydd o leiaf 2 ar gael bob amser) yn ddiogel oddi ar wefan y Consortiwm cyn bydd yr asesiad yn cael ei gynnal. Dylid lawrlwytho'r rhain o leiaf dair wythnos cyn yr asesiad er mwyn rhoi digon o amser i'r ganolfan gadarnhau a chael gafael ar y deunyddiau a'r offer angenrheidiol (os oes angen). Dylid rhoi briff y prosiect i'r dysgwyr ar ddechrau'r cyfnod asesu yn unig.

Manylion asesu

Mae'r manylion isod yn rhoi trosolwg lefel uchel o'r deilliannau sy'n cael eu cynnwys mewn gwahanol rannau o'r prosiect ymarferol.

Rhan 1. Cynllunio		
Gwybodaeth, Sgiliau a Dealltwriaeth:	Uned	Canlyniad Dysgu/Meini Prawf
1 Maes Cynllunio Prosiect: Meysydd Cynnwys Cyffredinol		
Y prif grefftau adeiladu: galwedigaethau trywel, galwedigaethau coed, plastro, galwedigaethau paentio gyda gorffeniad addurniadol a phaentio diwydiannol, mynediad at weithrediadau a rigio, galwedigaethau toi; gwaith adeiladu a pheirianeg sifil	102	LO1 - 1.1
Y prif grefftau peirianeg gwasanaethau adeiladu: electro-dechnegol, plymio, peirianeg gosod nwy, gwresogi ac awyru; oeri ac aerdymheru	102	LO1 - 1.2
Gwybod am gyfleoedd ac opsiynau cyflogaeth: contractau sydd ar gael yn y diwydiant, dod o hyd i gyfleoedd gwaith a swyddi gwag	104	LO1 – 1.1-1.2
Defnyddio sgiliau busnes a chyflogadwyedd sylfaenol: sgiliau ymchwil sylfaenol, cyfrifo ac anfonebu sylfaenol, datrys problemau	104	LO4 – 4.1-4.3
Deall egwyddorion rheoli risg: terminoleg; proses asesu risg; cyfarpar diogelu personol; gweithdrefnau brys; arwyddion diogelwch	105	LO3 – 3.1-3.5
2 Maes Cynllunio Prosiect: Meysydd Cynnwys Penodol i Grefft: Galwedigaethau crefftau trywel		
Egwyddorion y galwedigaethau trywel: yr offer a'r cyfarpar a ddefnyddir; deunyddiau a ddefnyddir mewn galwedigaethau trywel	107	LO1 – 1.1 - 1.3

Cynllunio'r gwaith o gwblhau tasgau cyffredin: cynllunio dilyniant y gwaith; cyfrifo meintiau, cofnodi gwaith	107	LO3 – 3.1-3.3
2 Maes Cynllunio Prosiect: Meysydd Cynnwys Penodol i Grefft: Galwedigaethau crefftau coed		
Egwyddorion a ddefnyddir mewn galwedigaethau coed: prif rolau a thasgau, deunyddiau; offer llaw; offer pŵer a ddefnyddir mewn Galwedigaethau Coed	108	LO1 – 1.1-1.4
Cynllunio a chynhyrchu dilyniant o waith: cynllunio dilyniant o waith; cynhyrchu dilyniant o waith	108	LO2 – 2.1-2.2
2 Maes Cynllunio Prosiect: Meysydd Cynnwys Penodol i Grefft: Plastro mewnol		
Yr egwyddorion sylfaenol sy'n sail i waith plastrwr: mathau o systemau plastro a chefnidiroedd, mathau o ddeunyddiau, ychwanegion, cydrannau	109	LO1 – 1.1-1.5
Gwybod beth yw'r gofynion o ran paratoi ar gyfer defnyddio deunyddiau plastro: paratoi manau gwaith a manau cymysgu, offer paratoi, dulliau paratoi	109	LO2 – 2.1-2.3
Cynllunio i gwblhau tasgau plastro cyffredin: Cynllunio dilyniant y gwaith, cyfrifo meintiau, storio deunyddiau a chydrannau	109	LO3 – 3.1-3.3
2 Maes Cynllunio Prosiect: Meysydd Cynnwys Penodol i Grefft: Paentio gyda gorffeniad addurniadol a phaentio diwydiannol		
Deall yr egwyddorion sylfaenol sy'n sail i waith paentiwr ac addurnwr: mathau o waith peintio ac addurno, rhesymau dros arwynebau peintio, deddfwriaeth allweddol, cynaliadwyedd	110	LO1 – 1.1-1.5
Adnabod yr offer, y cyfarpar a'r deunyddiau cyffredin sy'n cael eu defnyddio yn y diwydiant peintio ac addurno: offer a chyfarpar peintio, deunyddiau paratoi a chaenau arwyneb, deunyddiau sy'n cael eu defnyddio i ddiogelu'r amgylchedd	110	LO2 – 2.1-2.3
Paratoi ar gyfer tasgau peintio ac addurno cyffredin: cynllunio dilyniant y gwaith, paratoi'r man gwaith a gwarchod yr ardaloedd cyfagos	110	LO3 – 3.1-3.2
2 Maes Cynllunio Prosiect: Meysydd Cynnwys Penodol i Grefft: Galwedigaethau toi		
Gwybod yr egwyddorion sylfaenol a ddefnyddir mewn galwedigaethau toi: mathau o deils a llechi naturiol, yr offer a'r cyfarpar a ddefnyddir	111	LO1 – 1.1-1.2
Gwybod beth yw'r gofynion ar gyfer gwaith llechi a theilsio: Deall rôl llechwr a theiliwr, Gofynion diogelwch ar gyfer gweithio ar uchder	111	LO2 – 2.1-2.4
2 Maes Cynllunio Prosiect: Meysydd Cynnwys Penodol i Grefft: Gweithrediadau adeiladu a pheirianneg sifil		
Egwyddorion a ddefnyddir mewn gweithrediadau adeiladu a pheirianneg sifil: deunyddiau a ddefnyddir, offer a chyfarpar	112	LO1 – 1.1-1.3
Cynllunio a chynhyrchu dilyniant o waith: cynllunio dilyniant o waith; cyfrifo'r adnoddau sy'n ofynnol	112	LO2 – 2.1-2.2
2 Maes Cynllunio Prosiect: Meysydd Cynnwys Penodol i Grefft: Plymio a gwresogi domestig		
Gwybod beth yw egwyddorion sylfaenol systemau plymio a gwresogi: cylchoedd dŵr glaw, gwahanol ffynonellau dŵr, mathau a chynllun systemau gwresogi a dŵr oer a phoeth	113	LO1 1.1-1.5

Deall yr egwyddorion sylfaenol sy'n sail i waith peiriannydd gwresogi domestig a phlymio: y gwaith ym maes crefftau Peirianeg Gwasanaethau Adeiladu, offer llaw, offer pŵer, deunyddiau a meintiau pibellau a ddefnyddir, y mathau o glipliau a bracedi a ddefnyddir, y mathau o osod a ddefnyddir, dyfeisiau gosod ar gyfer gwaith pibellau	113	LO2 2.1-2.6
Gwybod beth yw'r gofynion o ran cyflawni tasgau plymio a gwresogi cyffredin: sut mae mesur a marcio allan, ffynonellau gwybodaeth, dulliau uniadu a phlygu, gofynion ar gyfer gosod pibellau	113	LO3 – 3.1-3.5
Cynllunio ar gyfer cwblhau tasgau plymio a gwresogi cyffredin: Cynllunio dilyniant y gwaith, cyfrifo meintiau, cofnodi gwaith	113	LO4 – 4.1-4.3
2 Maes Cynllunio Prosiect: Meysydd Cynnwys Penodol i Grefft: Gosod systemau ac offer electro-dechnegol		
Gwybod egwyddorion sylfaenol gwaith electro-dechnegol: prif rolau a thasgau gwaith electro-dechnegol, prif egwyddorion trydanol cylched, y meintiau sy'n berthnasol i waith trydanol sylfaenol, defnyddio fformiwla'u i gyfrifo meintiau trydanol, prif nodweddion sut mae trydan yn cael ei gynhyrchu, ei drosglwyddo a'i ddsbarthu, prif ddogfennau'r diwydiant sy'n gysylltiedig â gwaith electrodechnegol	114	LO1 – 1.1-1.6
Gwybod beth yw prif egwyddorion cylchedau safonol: cylchedau pŵer a goleuadau, amddiffyn namau dros y cerrynt a'r ddaear, rhesymau dros rannu gosodiad yn gylchedau, egwyddorion cylchedau safonol, pwysigrwydd daearu	114	LO2 – 2.1-2.6
Gwybod pa systemau weirio, cyfarpar a chydrannau a ddefnyddir mewn gosodiadau trydanol: mathau o geblau, systemau cyfyngu wedi'u diffinio, dulliau gosod a diogelu ar gyfer ceblau a chyfyngiant	114	LO3 – 3.1-3.3
Gwybod sut i gynllunio tasgau cyffredin mewn gwaith electro-dechnegol: cynllunio dilyniant o waith, dehongli ffynonellau gwybodaeth perthnasol	114	LO4 – 4.1-4.2
2 Maes Cynllunio Prosiect: Meysydd Cynnwys Penodol i Grefft: Gweithrediadau offer		
Gwybod yr egwyddorion sylfaenol sy'n llywio gwaith gweithredwr peiriannau sy'n ofynnol ar gyfer tasgau cyffredin: mathau o waith adeiladu lle mae angen peiriannau, offer a chyfarpar, gofynion sgiliau, adnabod peryglon	115	LO1 – 1.1-1.3
Gwybod beth yw'r gofynion o ran cyflawni tasgau gweithredu peiriannau: adnabod peiriannau a chyplysiadau, gwybod sut mae cynnal archwiliadau cyn dechrau, canfod diffygion a chofnodi, gwybod sut mae cynnal archwiliadau ar ôl stopio	115	LO2 – 2.1-2.4
2 Maes Cynllunio Prosiect: Meysydd Cynnwys Penodol i Grefft: Teilsio waliau a lloriau		
Gwybod yr egwyddorion sylfaenol sy'n llywio gwaith teilsiw'r waliau a lloriau: rôl teilsiw'r waliau a lloriau, mathau o gefndiroedd a ddefnyddir i osod teils llawr a waliau, y mathau o ddeunyddiau a ddefnyddir, y mathau o offer a chyfarpar a ddefnyddir, y mathau o offer diogelu personol, y ddeddfwriaeth allweddol	116	LO1 – 1.1-1.6
Gwybod beth yw'r gofynion o ran paratoi ar gyfer teilsio waliau a lloriau: dulliau a sut i – paratoi manau gweithio a chymysgu, paratoi deunyddiau ac adnoddau, paratoi offer a chyfarpar, paratoi gefndiroedd, deunyddiau a ddefnyddir i ddiogelu ardaloedd cyfagos	116	LO2 – 2.1-2.5

Cynllunio cwblhau tasgau teilsio waliau a lloriau: cynllunio dilyniant y gwaith, cyfrifo meintiau, storio deunyddiau a chydrannau	116	LO3 – 3.1-3.3
--	-----	---------------

Rhan 2. Ymarferol		
Gwybodaeth, Sgiliau a Dealltwriaeth:	Uned	Canlyniad Dysgu/Meini Prawf Asesu
2 Maes ymarferol prosiect: Meysydd cynnwys generig		
Defnyddio sgiliau cyflogadwyedd a busnes sylfaenol: sgiliau ymchwilio sylfaenol, prosesau anfonebu a chyfrifo sylfaenol, datrys problemau	104	LO4 – 4.3
Defnyddio arferion gwaredu a rheoli gwastraff sylfaenol. Ystod: didoli, ailgylchu, tirlenwi, llosgi, gwaredu gwastraff peryglus, llwch.	105	LO6 – 6.1
2 Maes ymarferol prosiect: Meysydd Cynnwys Penodol i Grefft: Galwedigaethau crefftau trywel		
Prosesau stacio, storio a pharatoi deunyddiau: rhesymau dros stacio a storio deunyddiau; dulliau o baratoi mortar ar gyfer gwaith; dulliau paratoi'r ardal ar gyfer gwaith	107	LO2 – 2.1-2.3
Gosod ac adeiladu ystod o waliau gan ddefnyddio brics, blocs a cherrig: gosod allan ac adeiladu waliau syth, gosod allan ac adeiladu congffeini, gosod allan ac adeiladu wal geudod, gwneud y gwaith yn effeithiol ac yn ddiogel	107	LO4 – 4.1-4.3
2 Maes ymarferol prosiect: Meysydd Cynnwys Penodol i Grefft: Galwedigaethau crefftau coed		
Cwblhau tasgau gwaith coed cyffredin: paratoi pren, cynhyrchu uniadau gwaith coed, adeiladu tasgau gwaith coed cyffredin, gosod mowldinau, gweithio'n ddiogel	108	LO3 – 3.1-3.5
2 Maes ymarferol prosiect: Meysydd Cynnwys Penodol i Grefft: Plastro a systemau mewnlol		
Cyflawni tasgau plastro cyffredin: offer, gosod plastrfwrdd a dellt pren, paratoi cefndiroedd, gosod gleiniau, gosod systemau plastro, cynnal manau gweithio diogel	109	LO4 – 4.1-4.6
2 Maes ymarferol prosiect: Meysydd Cynnwys Penodol i Grefft: Paentio gyda gorffeniad addurniadol a phaentio diwydiannol		
Gwaith paratoi ar gyfer tasgau addurno a phaentio cyffredin: cynllunio trefn y gwaith, paratoi'r ardal waith a gwarchod y manau o amgylch, codi llwyfannau gweithio ac offer mynediad a'u tynnu i lawr, paratoi a thacluso arwynebau, paratoi deunyddiau cotio sy'n seiliedig ar ddŵr a rhai sy'n seiliedig ar dddyddion, storio deunyddiau cyn ac ar ôl eu defnyddio	110	LO3 – 3.1-3.7
Cyflawni tasgau peintio ac addurno cyffredin: defnyddio systemau paent sy'n seiliedig ar ddŵr a thoddyddion heb ddiffygion, glanhau, cynnal a chadw a storio offer a chyfarpar, cynnal a chadw man gwaith glân a diogel	110	LO4 – 4.1-4.3
2 Maes ymarferol prosiect: Meysydd Cynnwys Penodol i Grefft: Galwedigaethau toi		
Gosod gorchuddion to: sicrhau amgylchedd gweithio diogel, paratoi cefndiroedd, gosod is-haen, mesur a marcio a phennu llinellau llorweddol, cyfrifo'n gywir, gorchuddio'r to â llechi neu deils gan ddefnyddio dulliau gosod cywir, gosod systemau ymylon a chrib sych, gwerthuso a dadansoddi perfformiad	111	LO3 – 3.1-3.7
2 Maes ymarferol prosiect: Meysydd Cynnwys Penodol i Grefft: Gweithrediadau adeiladu a pheirianneg sifil		

Cyflawni tasgau cyffredin mewn gwaith adeiladu a pheirianeg sifil: codi a symud offer diogelu'r safle; gosod draeniau; gosod palmant modiwlaid; gwaith concrid; gweithdrefnau gweithio diogel	112	LO3 – 3.1-3.5
2 Maes ymarferol prosiect: Meysydd Cynnwys Penodol i Grefft: Plymio a gwresogi domestig		
Cyflawni tasg gosod pibellau: dilyn gweithdrefnau gweithio diogel; mesur, marcio a thorri pibellau i'w gosod; gosod pibellau'n gywir yn ôl y fanyleb; archwilio gwaith yn unol â'r fanyleb; dewis yr offer profi ac ategion priodol a'u paratoi i'w defnyddio; cynnal y profion priodol; cofnodi canlyniad y prawf yn gywir	113	LO5 – 5.1-5.7
2 Maes ymarferol prosiect: Meysydd Cynnwys Penodol i Grefft: Systemau ac offer electro-dechnegol		
Cyflawni tasgau cyffredin mewn gwaith gosod trydanol: gweithdrefnau gweithio diogel, offer a chyfarpar, y dulliau ar gyfer gosod, terfynu a chysylltu ceblau a dargludyddion, gosod systemau a chyfarpar gwifrau, technegau a dulliau ar gyfer terfynu a chysylltu ceblau	114	LO5 – 5.1-5.5
2 Maes ymarferol prosiect: Meysydd Cynnwys Penodol i Grefft: Gweithrediadau offer		
Cyflawni tasgau o ran gweithrediadau peiriannau: dod yn gyfarwydd â pheiriannau a chyfarpar, gweithredu peiriannau, canfod, cofnodi a rhoi gwybod am ddiffygion wrth weithredu, cynnal archwiliadau ar ôl stopio, storio a'u gwneud yn barod i'w defnyddio yn y dyfodol	115	LO3 – 3.1-3.5
2 Maes ymarferol prosiect: Meysydd Cynnwys Penodol i Grefft: Teilsio waliau a lloriau		
Cyflawni tasgau teilsio waliau a lloriau: defnyddio offer, cyfarpar a deunyddiau, paratoi cefndiroedd, gosod allan, gosod amrywiaeth o deils wal a llawr, defnyddio gludiau, gorffen i safon uchel, cynnal man gwaith diogel	116	LO4 – 4.1-4.7

Rhan 3. Adolygu		
Gwybodaeth, Sgiliau a Dealltwriaeth:	Uned	Canlyniad Dysgu/Meini Prawf Asesu
2 maes ymarferol prosiect: Meysydd Cynnwys Penodol i Grefft: Galwedigaethau crefftau trywel		
Prosesau stacio, storio a pharatoi deunyddiau: gwerthuso yn erbyn safonau penodedig, dadansoddi perfformiad	107	LO5 – 5.1-5.2
2 maes ymarferol prosiect: Meysydd Cynnwys Penodol i Grefft: Galwedigaethau crefftau coed		
Dulliau gwerthuso perfformiad: gwerthuso yn erbyn safonau penodedig, dadansoddi perfformiad	108	LO4 – 4.1-4.2
2 maes ymarferol prosiect: Meysydd Cynnwys Penodol i Grefft: Plastro a systemau mewnl		
Deall y meini prawf perfformiad ar gyfer cwblhau a gwerthuso tasgau plastro cyffredin: gwerthuso yn erbyn safonau'r diwydiant, dadansoddi perfformiad	109	LO5 – 5.1-5.2
2 maes ymarferol prosiect: Meysydd Cynnwys Penodol i Grefft: Galwedigaethau Peintio â Gorffeniad Addurnol a Phaentio Diwydiannol		
Deall y meini prawf perfformiad ar gyfer cwblhau a gwerthuso tasgau paentio ac addurno cyffredin: gwerthuso yn erbyn safonau'r diwydiant, dadansoddi perfformiad	110	LO5 – 5.1-5.2
2 maes ymarferol prosiect: Meysydd Cynnwys Penodol i Grefft: Galwedigaethau toi		
Deall y dulliau gwerthuso perfformiad: gwerthuso yn erbyn safonau penodedig, dadansoddi perfformiad	111	LO4 – 4.1-4.2

2 maes ymarferol prosiect: Meysydd Cynnwys Penodol i Grefft: Gweithrediadau adeiladu a pheirianneg sifil		
Deall y dulliau gwerthuso perfformiad: gwerthuso yn erbyn safonau penodedig, dadansoddi perfformiad	112	LO4 – 4.1-4.2
2 maes Adolygu Prosiect: Meysydd Cynnwys Penodol i Grefft: Plymio, gwresogi ac awyru		
Deall y meini prawf perfformiad ar gyfer cwblhau a gwerthuso tasgau plymio a gwresogi cyffredin: gwerthuso yn erbyn safonau'r diwydiant, dadansoddi perfformiad	113	LO6 – 6.1-6.2
2 maes ymarferol prosiect: Meysydd Cynnwys Penodol i Grefft: Systemau ac offer electro-dechnegol		
Deall y dulliau gwerthuso perfformiad: archwilio gwaith yn unol â'r fanyleb, profi cylchedau wedi'u dad-egnioli, gwerthuso yn erbyn safonau penodedig, dadansoddi perfformiad	114	LO6 – 6.1-6.4
2 maes ymarferol prosiect: Meysydd Cynnwys Penodol i Grefft: Gweithrediadau offer		
Deall y meini prawf perfformiad ar gyfer cwblhau a gwerthuso tasgau gweithredu peiriannau: gwerthuso yn erbyn safonau'r diwydiant, dadansoddi perfformiad	115	LO4 – 4.1-4.2
2 maes ymarferol prosiect: Meysydd Cynnwys Penodol i Grefft: Teilsio waliau a lloriau		
Deall y meini prawf perfformiad ar gyfer cwblhau a gwerthuso tasgau teilsio waliau a lloriau: gwerthuso yn erbyn safonau'r diwydiant, dadansoddi perfformiad	116	LO5 – 5.1-5.2

Canllawiau penodol i dasgau

Y Dasg Gynllunio (Cynllunio)

Bydd gan ddysgwyr 10 awr i gynllunio eu prosiect crefft cyn dechrau ar y prosiectau ymarferol, yn ogystal â rhywfaint o waith ymchwil ychwanegol a fydd hefyd yn cael ei gynnwys yn y 10 awr. Os bydd dysgwyr yn cwblhau tasgau cynllunio o fewn 10 awr, ni chaniateir iddynt ddefnyddio amser ychwanegol ar gyfer tasgau eraill.

Bydd angen i'r dysgwr gael dau gopi o'r cynllun, gan gyflwyno un i'r asesydd a defnyddio un ar gyfer ei brosiectau.

Rhaid i gynllun y dysgwr gynnwys rhestr deunyddiau, rhestr offer a chyfarpar angenrheidiol a datganiad dull sy'n cynnwys:

- Meysydd lle mae'n meddwl bod angen iddo ryngweithio â thrydydd partiön
- Y prif beryglon a risgiau (wrth ddefnyddio deunyddiau niweidiol, ac ati) wrth gyflawni'r tasgau ymarferol
- Gofynion o ran gwaredu gwastraff ac ailgylchu deunyddiau a ddefnyddir yn y tasgau ymarferol.

Dylai dysgwyr gwblhau eu gwaith cynllunio mewn ystafell ddosbarth, gyda staff y ganolfan, sydd wedi cael hyfforddiant goruchwyllo, yn eu monitro. Bydd angen i ddysgwyr gael mynediad at gyfleusterau TG a mynediad at y rhyngwyd, gwybodaeth y gweithgynhyrchwyr, catalogau cyfanwerthwyr, nodiadau cyfarwyddyd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac unrhyw ddeunydd arall a fyddai ar gael iddynt petai'r prosiect hwn yn cael ei wneud yn y gweithle.

Does dim ffurflenni cofnodi parod wedi cael eu darparu yn y pecyn hwn ar gyfer dogfennau ysgrifenedig fel asesiadau risg neu ddatganiadau o ddull. Mae hyn yn fwiadol; fel rhan o'r asesiad bydd angen i ddysgwyr ddod o hyd i ffurflenni priodol i ddangos eu gwaith. Caniateir defnyddio ffurflenni sydd gan gyflogwyr neu ganolfannau, a rhaid eu darparu os yw'r dysgwr yn gofyn amdanynt.

Ar ôl i ddysgwr gwblhau'r dasg gynllunio, rhaid iddo gyflwyno copi o'i gynllun i'r asesydd at ddibenion asesu, a chadw copi iddo'i hun i'w ddefnyddio yn elfen ymarferol y prosiect. Yn unol â'r canllawiau a ddarparwyd i'r dysgwr, rhaid i hwn gael ei gyflwyno fel copi electronig.

I gefnogi'r asesiad parhaus, dylai'r asesydd farcio'r elfen gynllunio a chadarnhau bod y dasg gynllunio ar gyfer y maes crefft wedi cyrraedd y trothwy isaf ar gyfer pasio cyn y gall y dysgwyr symud ymlaen i'r cam gwneud. Mae hyn yn sicrhau mai dim ond pan fydd dysgwyr wedi nodi digon o ofynion iechyd a diogelwch a'r deunyddiau a'r cyfarpar angenrheidiol ar gyfer y dasg/tasgau y byddant yn symud ymlaen. Dylid asesu'r canlyniadau a chadarnhau'r camau nesaf cyn pen wythnos iddynt gwblhau'r elfen gynllunio.

I sicrhau bod y tasgau ymarferol yn rhesymol ar gyfer y maes crefft, mae rhestr o offer a deunyddiau wedi cael ei darparu fel rhan o'r briff asesu ar gyfer pob crefft (gweler y Pecyn Prosiect Ymarferol sydd ar gael ar wefan y Consortiwm). **Sylwch mai i'w defnyddio gan ganolfannau yn unig mae'r rhestrau hyn ac ni ddylid eu darparu i ddysgwyr**, a fydd yn defnyddio rhestr offer a deunyddiau maent wedi'i datblygu eu hunain fel rhan o'u gwaith cynllunio.

Tasg Ymarferol (Gwneud)

Bydd yr elfen hon o'r asesiad yn cynnwys un dasg ymarferol ar gyfer y maes crefft, gyda'r dysgwr yn dilyn y briff i ddangos y sgiliau y mae wedi'u hennill yn y maes hwn.

Bydd y dysgwr yn defnyddio'r cynlluniau mae wedi'u creu ac yn cyflawni'r dasg/tasgau ymarferol yn yr amser a roddir.

Gwerthuso (Adolygu)

Bwriedir i'r elfen hon o'r asesiad gael ei chyflawni fel tasg hunanwerthuso mewn dwy ran, gan gyfeirio'n ôl at gynllun y prosiect y mae'r dysgwr wedi'i osod cyn dechrau'r dasg yn ogystal â phwysu a mesur sut roedd wedi gweithio yn ystod y dasg ymarferol ac wedi cyflawni'r briff. Dylai'r broses adolygu sicrhau bod y dysgwr yn hyderus bod y prosiect ymarferol yn ddiogel ac yn addas i'r diben. Pan fo'n briodol, dylai'r dysgwr roi manylion lle nad oedd wedi bodloni'r meini prawf ac unrhyw gamau y dylai eu cymryd i fodloni'r meini prawf.

Disgwylir i'r dysgwr bwysu a mesur y gwersi a ddysgwyd a'r hyn y byddai'n ei wneud yn wahanol y tro nesaf y bydd yn cwblhau'r dasg/tasgau.

Canllawiau cyffredinol

Amserlen

Disgwylir i'r prosiect gael ei gynnal ar adeg o'r rhaglen ddysgu mae'r ganolfan yn ei hystyried yn briodol, gan ganiatáu amser i ddysgwyr ailsefyll os oes angen. Dylai'r asesiad gael ei gynllunio gan staff y ganolfan er mwyn sicrhau bod yr holl dasgau'n gallu cael eu cynnal o fewn amserlen sy'n rhesymol i'r dysgwr a'r ganolfan. Dylai'r cyfnod helpu'r dysgwr i wneud cynnydd o fewn y tasgau heb achosi bylchau neu oedi diangen o ran asesu.

- Mae uchafswm o **10 awr wedi cael ei ddyrannu** ar gyfer elfen **gynllunio**'r asesiad hwn.
- Mae uchafswm o **20 awr wedi cael ei ddyrannu** ar gyfer elfen **ymarferol** yr asesiad hwn.
- Mae uchafswm o **2.5 awr wedi cael ei ddyrannu** ar gyfer elfen **werthuso**'r asesiad hwn.

Does dim modd mynd dros yr uchafswm amser sy'n cael ei ddyrannu, felly does dim modd cario unrhyw amser nad yw wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer un elfen drosodd i elfen arall.

Mewn amgylchiadau eithriadol, os bydd angen amser ychwanegol ar y dysgwr i gwblhau'r asesiad(au) oherwydd salwch/absenoldeb tosturiol, yna dylid dilyn unrhyw ystyriaeth ar gyfer hyn yn unol â pholisi ac ymarfer ystyriaethau arbennig City and Guilds. Mae rhagor o fanylion yn y Llawlyfr Cymwysterau.

Amodau asesu

Bydd cam cynllunio'r asesiad hwn yn cael ei gyflawni mewn ystafell ddosbarth, er mwyn sicrhau bod gan ddysgwyr fynediad at gyfarpar TG ac adnoddau priodol er mwyn gwneud ymchwil i ategu eu gwaith cynllunio. Gallai hyn gynnwys nodiadau cyfarwyddyd, rheoliadau a chyfarwyddiadau/llynyddiaeth gweithgynhyrchwyr. Dylid goruchwyllo'r dysgwr drwy gydol y cyfnod, oherwydd bydd hyn yn cael ei gynnwys fel rhan o'i 10 awr o amser cynllunio sydd wedi cael ei ddyrannu iddo.

Disgwylir i elfen ymarferol yr asesiad hwn gael ei chynnal yng ngweithdy'r ganolfan. Rhaid i staff y ganolfan oruchwyllo'r dysgwyr drwy'r amser.

Disgwylir i elfen werthuso yr asesiad hwn gael ei chyflawni mewn ystafell ddosbarth, gan sicrhau y bydd dysgwyr yn gallu cael mynediad at eu dogfennau cynllunio i ategu eu gweithgareddau adolygu a gwerthuso. Dylid goruchwyllo'r dysgwr drwy gydol y cyfnod, oherwydd bydd hyn yn cael ei gynnwys fel rhan o'i 2.5 awr o amser gwerthuso sydd wedi cael ei ddyrannu iddo.

Ailsefyll/ailgyflwyno

Os bydd y dysgwr yn methu unrhyw gam o'r asesiad, mae'n bosibl iddo ailgyflwyno.

Dim ond yr elfennau o'r asesiad y mae wedi'u methu y bydd gofyn i ddysgwr eu hailgyflwyno. Er enghraifft, os bydd dysgwr yn methu cwblhau un o'i gynlluniau crefft yn llwyddiannus, ond yn cwblhau'r ail yn llwyddiannus, dim ond y cynllun aflwyddiannus fyddai angen ei ailgyflwyno.

Gall dysgwr gyflawni'r ystod lawn o farciau a graddau sydd ar gael wrth ailgyflwyno.

Os nad yw'r dysgwr yn cyrraedd y lefel briodol, dylai'r ganolfan naill ai:

- trefnu cymorth ychwanegol i'r dysgwr, neu
- rhoi gwybod i'r dysgwr am ei hawl i apelio.

Rhaid i ganolfannau gofnodi unrhyw gamau a gymerir a/neu unrhyw gefnogaeth ychwanegol a roddir i'r dysgwr.

Rhaid dilyn y canllawiau penodol hyn pan fydd gofyn ailsefyll/ailgyflwyno rhannau unigol o'r prosiect.

Cynllunio

Os na fydd y dysgwr yn llwyddo i gyrraedd trothwy'r marc pasio ar gyfer ei gynllun, caiff ailgyflwyno ei gynllun yn ôl briff y prosiect gwreiddiol y rhoddodd gynnig arno. Dylid dweud wrth aseswyr mai dim ond adborth lefel uchel y caniateir iddo ei roi i'r dysgwr, sy'n amlinellu'r prif feysydd lle mae wedi methu â chyrraedd y meini prawf – ond ni ddylai roi cyngor i'r dysgwr ynghylch yr hyn mae angen iddo ei wneud er mwyn cywiro hyn.

Gwneud

Os na fydd y dysgwr yn llwyddo i gyrraedd trothwy'r marc pasio ar gyfer ei dasg ymarferol, caiff ailsefyll/ailgyflwyno'r dasg yn ôl briff y prosiect gwreiddiol y rhoddodd gynnig arno, gan ddefnyddio ei gynllun gwreiddiol. Os na fydd y dysgwr wedi llwyddo i gyrraedd trothwy'r marc pasio, ond mai methu o drwch blewyn a wnaeth (sy'n cyfrif fel 18-22 o farciau), mae'n bosibl dweud wrth y dysgwr pa feysydd yn y gwaith gwreiddiol a gyflwynodd i'w hasesu y dylai eu hail-wneud. Pan fydd y dysgwr yn amlwg wedi methu (17 marc neu is), dylid dweud wrth y dysgwr am ailddechrau'r dasg o'r dechrau.

Adolygu

Os na fydd y dysgwr yn llwyddo i gyrraedd trothwy'r marc pasio ar gyfer ei dasg adolygu, caiff ailgyflwyno'r adolygiad ar sail y dystiolaeth a oedd yn deillio o'i dasg 'gwneud'. Dylid dweud wrth aseswyr mai dim ond adborth lefel uchel y caniateir iddo ei roi i'r dysgwr, sy'n amlinellu'r prif feysydd lle mae wedi methu â chyrraedd y meini prawf – ond ni ddylai roi cyngor i'r dysgwr ynghylch yr hyn mae angen iddo ei wneud er mwyn cywiro hyn.

Lechyd a diogelwch

Mae'r gofyniad i ddilyn arferion gweithio diogel yn rhan hollbwysig o holl gymwysterau ac asesiadau City & Guilds, a chyfrifoldeb y canolfannau yw sicrhau bod yr holl ofynion iechyd a diogelwch yn eu lle cyn i ddysgwyr ddechrau asesiad y prosiect.

Os bydd dysgwr yn peidio â dilyn yr arferion a'r gweithdrefnau iechyd a diogelwch cywir yn ystod unrhyw un o gamau asesu'r prosiect, rhaid stopio'r asesiad a rhoi gwybod i'r dysgwr pam gwnaed hynny. Dylid rhoi gwybod i'r dysgwr ei fod heb gyrraedd y safon ofynnol ar gyfer yr asesiad. Yn ôl disgrisiwn y ganolfan, gall dysgwr ailsefyll yr asesiad yn nes ymlaen pan fydd yn gallu gweithio'n ddiogel. Os bydd unrhyw amheuaeth, dylid gofyn am arweiniad gan y Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol.

Marcio a chanlyniadau asesiadau

Defnyddio'r grid marcio

Ar gyfer **elfen gynllunio**'r prosiect, rhaid i aseswyr ddefnyddio adrannau cynllunio'r grid marcio isod i roi marc rhwng 1 a 3 ar gyfer pob elfen (1-5) ar sail lefel perfformiad y dysgwr. Os na fydd y dysgwr yn llwyddo i fodloni meini prawf marcio ar gyfer elfen benodol, rhaid rhoi 0 fel sgôr. Bydd y dysgwyr yn cynllunio'r elfen ymarferol ar gyfer eu profiad crefft, yn unol â meini prawf marcio 4-5.

Ar gyfer yr **elfen ymarferol**, bydd dysgwyr yn cwblhau tasg ymarferol ar gyfer eu maes crefft, mae'n rhaid i aseswyr ddefnyddio briff y prosiect a'r grid marcio ar gyfer y grefft berthnasol i bennu marc a gradd gyffredinol y prosiect. Mae crynodebau o brosiectau a gridiau marcio ar gael yn Adran 3 y Pecyn Prosiect Ymarferol (ar gael ar wefan y Consortiwm).

Ar gyfer yr **elfen werthuso**, rhaid i aseswyr ddefnyddio adran asesu'r grid marcio isod i roi marc o rhwng 1 a 3 ar gyfer pob elfen (1-2) ar sail lefel perfformiad y dysgwr. Os na fydd y dysgwr yn llwyddo i fodloni meini prawf marcio ar gyfer elfen benodol, rhaid rhoi 0 fel sgôr.

Grid Marcio

Defnyddiwch y disgrifyddion marcio isod ar gyfer pob elfen asesu, a nodi'r marciau a roddwyd ar gyfer pob elfen drwy roi cylch o amgylch y marc a gafwyd. Os nad yw'r dysgwr yn cyflawni'r disgrifyddion sydd wedi'u rhestru ar gyfer pob elfen unigol (a, b, c, ac ati) rhaid rhoi 0 fel sgôr ar gyfer yr elfen honno. Yna rhaid adio marc pob adran at ei gilydd i gael cyfanswm marc ar gyfer y prosiect. Mae'r tabl dan yr adran 'Canlyniad cyffredinol a Bennir' yn nodi'r marc Pasio ar gyfer y prosiect ymarferol yn gyffredinol.

Mae gridiau marcio ar gyfer elfen ymarferol y prosiect ar gyfer pob crefft ar gael yn y Pecyn Prosiect Ymarferol.

Cynllunio – ar gyfer y Diwydiant Adeiladu

Elfen	Marciau a gafwyd
Cynllunio Bydd dysgwyr yn cyflawni un o'r canlynol ar sail safon eu perfformiad. Os na fodlonir yr un o'r isod, rhaid rhoi sgôr o 0 ar gyfer yr elfen hon	
1) Cyflogadwyedd a datblygu gyrfa yn y grefft Mae'r dysgwr wedi dangos <ul style="list-style-type: none">• dealltwriaeth sylfaenol o'r mathau o swyddi a llwybrau gyrfa yn y grefft o'i ddewis.• ymgais i ddefnyddio rhai sgiliau ymchwil sylfaenol i ganfod yr opsiynau cyflogaeth sydd ar gael iddynt yn y maes crefft o'i ddewis. neu Mae'r dysgwr wedi dangos <ul style="list-style-type: none">• dealltwriaeth glir o'r gwahanol fathau o rolau swyddi a llwybrau gyrfa, a rhywfaint o fanylion am gynnydd yn y dyfodol yn y maes crefft o'i ddewis• gallu i ddefnyddio sgiliau ymchwil i ganfod opsiynau cyflogaeth sydd ar gael iddynt yn y maes crefft o'i ddewis. neu Mae'r dysgwr wedi dangos <ul style="list-style-type: none">• dealltwriaeth llywr o'r gwahanol fathau o rolau swyddi a llwybrau gyrfa, a manylion manwl am gynnydd yn y dyfodol yn y maes crefft o'i ddewis• gallu i ddefnyddio ystod o sgiliau ymchwil i ganfod amrywiaeth o opsiynau cyflogaeth sydd ar gael iddynt yn bob un o'r meysydd crefft o'i ddewis.	1 2 3

<p>2) Costau</p> <p>Ar gyfer y dasg hon – bydd y cyfrifiadau'n seiliedig ar y wybodaeth am gostau a ddarperir yn y pecyn prosiect ymarferol byw. Mae'r enghreifftiau isod yn amlinellu sut mae'n rhaid defnyddio'r wybodaeth hon i wneud cyfrifiadau.</p> <p>Mae'r dysgwr wedi</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfrifo'r brif gost yn gywir (cyfradd fesul awr x hyd y dasg + cost berthnasol). <p>neu</p> <p>Mae'r dysgwr wedi</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfrifo'r brif gost yn gywir ((cyfradd fesul awr x hyd y dasg) + cost berthnasol) ac wedi cyfrifo'n gywir yr elw (prif gost + (costau ychwanegol fesul awr x hyd y dasg)) = cyfanswm y gost x maint yr elw) <p>neu</p> <p>Mae'r dysgwr wedi</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfrifo'r brif gost yn gywir (cyfradd fesul awr x hyd y dasg) + cost berthnasol) ac wedi cyfrifo'n gywir yr elw (cyfanswm y gost x maint yr elw) a'r pris i'r cwsmer (cyfanswm y gost + elw). 	<p>1</p> <p>2</p> <p>3</p>
<p>3) Ansawdd <i>Dim ond un o feysydd crefft y dysgwr sydd ei angen ar gyfer y maen prawf hwn.</i></p>	
<p>Mae'r dysgwr wedi</p> <ul style="list-style-type: none"> darparu datganiad byr ar bwysigrwydd ansawdd, gyda chysylltiadau cyfyngedig yn cael eu gwneud â'i effaith ar enw da a busnes. <p>neu</p> <p>Mae'r dysgwr wedi</p> <ul style="list-style-type: none"> darparu datganiad manwl ar bwysigrwydd ansawdd, gyda chysylltiadau pendant yn cael eu tynnu rhwng lefelau ansawdd ac effaith ar enw da a busnes. <p>neu</p> <p>Mae'r dysgwr wedi</p> <ul style="list-style-type: none"> darparu trosolwg cynhwysfawr o bwysigrwydd ansawdd. Mae'r trosolwg yn tynnu sylw at synergeddau clir rhwng lefelau ansawdd a'u heffaith ar enw da a busnes, gyda dealltwriaeth glir a manwl yn cael ei darparu o fanteision ansawdd. 	<p>1</p> <p>2</p> <p>3</p>
<p style="text-align: right;">Cyfanswm</p>	

Cynllunio – ar gyfer Prosiect Crefft

Elfen	Marciau a gafwyd
<p>Cynllunio – Mae Tasgau 4 a 5 i'w cwblhau ar gyfer y maes crefft o'u dewis, gydag o leiaf 1 marc wedi'i gyflawni ar gyfer pob tasg. Fodd bynnag, dim ond y grefft sydd â'r sgôr uchaf fydd yn cyfrannu at y marc asesu cyffredinol.</p> <p>Bydd dysgwyr yn cyflawni un o'r canlynol ar sail safon eu perfformiad. Os na fodlonir yr un o'r isod, rhaid rhoi sgôr o 0 ar gyfer yr elfen hon.</p>	
<p>4) Rhestr deunyddiau, y cyfarpar gofynnol a'r datganiad dull</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'r dysgwr yn nodi rhestr sylfaenol o ddeunyddiau ac offer a fydd yn cefnogi'r gwaith o gwblhau'r prosiect – ond mae'n cynnwys aneffeithlonrwydd o fewn y cwmpas a ddewiswyd Mae'r dysgwr yn llunio datganiad dull sy'n dangos <ul style="list-style-type: none"> y peryglon, y peryglon a'r risgiau posibl mwyaf tebygol mewn perthynas â'r prosiect, gyda chamau gweithredu sylfaenol ond priodol yn cael eu darparu i ymateb pe byddent yn digwydd dealltwriaeth sylfaenol o drydydd partiön a allai fod yn gysylltiedig dealltwriaeth sylfaenol o'r gofynion i ddelio â gwastraff, gyda rhywfaint o gysylltiad â'r dasg. Mae ystyriaethau gwastraff yn dangos aneffeithlonrwydd, heb ystyried yr opsiynau mwyaf cynaliadwy sydd ar gael. <p>neu</p>	<p>1</p>

<ul style="list-style-type: none"> Mae'r dysgwr yn nodi rhestr fanwl o'r deunyddiau a'r cyfarpar sydd eu hangen ar gyfer y prosiect Mae'r dysgwr yn llunio datganiad dull sy'n <ul style="list-style-type: none"> dangos ystod o beryglon a risgiau posibl mewn perthynas â'r prosiect, gyda chamau gweithredu sylfaenol yn cael eu darparu i ymateb pe byddent yn digwydd dangos dealltwriaeth o'r trydydd partion a ddylai fod yn gysylltiedig dangos dealltwriaeth o'r gofynion i ddelio â gwastraff, sy'n berthnasol i'r dasg. Darparu dealltwriaeth glir o ffyrdd o ddelio â gwastraff ac ailgylchu'n effeithiol. <p>neu</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'r dysgwr yn nodi rhestr gynhwysfawr o'r deunyddiau a'r cyfarpar sydd eu hangen ar gyfer y prosiect, gan ystyried pa rai yw'r rhai mwyaf effeithiol ac effeithlon ar gyfer cyflawni'r dasg Mae'r dysgwr yn llunio datganiad dull sy'n <ul style="list-style-type: none"> nodi ystod gynhwysfawr o beryglon a risgiau posibl mewn perthynas â'r prosiect; gan roi dadansoddiad o'r effaith bosibl ar y dasg a ddarparwyd, gan gynnwys ystyried y camau lliniaru sydd i'w cymryd i leihau unrhyw effaith. dangos dealltwriaeth fanwl o'r ystod o drydydd partion a ddylai fod yn gysylltiedig, gan roi manylion am eu rôl yn y dasg dangos dealltwriaeth gynhwysfawr o'r gofynion i ddelio â gwastraff, sy'n berthnasol i'r dasg. Cynigir y dulliau mwyaf effeithiol a chynaliadwy o waredu ac ailgylchu gwastraff. 	<p>2</p> <p>3</p>
<p>5) Meini prawf perfformiad, gan gynnwys amserlenni</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'r dysgwr yn dangos ei fod wedi llunio cynllun cydlynol ond sylfaenol, gyda meini prawf perfformiad sylfaenol wedi'u nodi ac amserlenni simplistig wedi'u rhoi. Mae'r cynllun yn rhoi hyder y gellir cwblhau'r prosiect yn llwyddiannus, ond gydag aneffeithlonrwydd tebygol yn amlwg wrth gwblhau yn unol â'r amserlenni disgwylidig. <p>neu</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'r dysgwr yn dangos ei fod wedi llunio cynllun cydlynol, gydag ystod eang o feini prawf perfformiad ac amserlenni wedi'u diffinio wedi'u darparu. Mae'r cynllun yn rhoi hyder y gellir cwblhau'r prosiect yn llwyddiannus o fewn yr amserlenni arfaethedig a disgwylidig. <p>neu</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'r dysgwr yn dangos ei fod wedi llunio cynllun cydlynol a chynhwysfawr, sy'n rhoi manyion llawn y meini prawf perfformiad sydd i'w cynnwys ac sy'n darparu amserlenni manwl a diffiniedig. Mae'r cynllun yn rhoi hyder y gellir cwblhau'r prosiect yn llwyddiannus, yn effeithiol ac effeithlon o fewn yr amserlenni arfaethedig a disgwylidig. 	<p>1</p> <p>2</p> <p>3</p>
<p style="text-align: right;">Cyfanswm</p> <p style="text-align: right;">Cyfanswm Cynllunio</p>	

Adolygu

Elfen	Marciau a gafwyd
<p>Mae'n rhaid cwblhau'r tasgau adolygu ar gyfer y grefft o'u dewis, gydag o leiaf 1 marc wedi'i gyflawni ar gyfer bob tasg..</p> <p>Bydd dysgwyr yn cyflawni un o'r canlynol ar sail safon eu perfformiad. Os na fodlonir yr un o'r isod, rhaid rhoi sgôr o 0 ar gyfer yr elfen hon.</p>	
<p>1) Gwerthuso perfformiad eu gwaith wrth gyflawni'r prosiect mewn perthynas â gofynion penodedig y briff</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r dysgwr yn disgrifio'r gwaith mae wedi'i wneud yn gryno ac yn dangos rhai cysylltiadau perthnasol â'r briff penodedig. Mae'r dysgwr yn nodi'n gryno sut mae canlyniad y prosiect yn bodloni'r meini prawf perfformiad sydd wedi'u gosod ymlaen llaw. <p>neu</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r dysgwr yn disgrifio'r gwaith mae wedi'i wneud yn eithaf manwl ac mae ganddo gysylltiadau clir a pherthnasol â'r briff penodedig a darparwyd myfyrdodau ar sut mae wedi cyflawni hyn. Mae'r dysgwr yn disgrifio sut mae canlyniad y prosiect wedi bodloni'r meini prawf perfformiad a bennwyd ymlaen llaw. <p>neu</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r dysgwr yn disgrifio'r gwaith mae wedi'i wneud yn fanwl, gan ddarparu cysylltiadau cynhwysfawr â'r briff a rhoi syllwadau ar sail gwybodaeth ar sut mae wedi cyflawni hyn. Mae'r dysgwr yn darparu dadansoddiad manwl o sut mae canlyniad y prosiect wedi bodloni'r meini prawf perfformiad a bennwyd ymlaen llaw. 	<p>1</p> <p>2</p> <p>3</p>
<p>2) Gwerthuso perfformiad eu prosiect mewn perthynas â'u cynllun prosiect</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r dysgwr yn gallu rhoi myfyrdodau sylfaenol ar ei brosiect mewn perthynas â'i gynllun prosiect ac mae'n darparu enghreifftiau byr o welliannau posibl. <p>neu</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r dysgwr yn gallu darparu myfyrdod da o'i gynllun prosiect ei hun ac i ba raddau y cawsant eu cyflawni, gan nodi cryfderau a gwendidau ei ddull gweithredu a nodi'n fanwl a chryno sut roedd y rhain wedi effeithio ar y dasg neu'n gallu effeithio ar ffyrdd o weithio yn y dyfodol. <p>neu</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gall y dysgwr roi myfyrdod ardderchog ar ei gynllun prosiect ei hun i gwblhau'r prosiect, ac i ba raddau y cawsant eu cyflawni, gan nodi cryfderau a gwendidau ei ddull gweithredu, a sut mae'r dysgu wedi cael ei ddefnyddio yn y prosiect i ddangos gwelliant parhaus (er mwyn manteisio i'r eithaf ar gryfderau, a lliniaru gwendidau) ac i ddatblygu ffyrdd o weithio yn y dyfodol. 	<p>1</p> <p>2</p> <p>3</p>
Cyfanswm	

Adran y Prosiect	Marciau ar gael	Marciau a Gafwyd	Trothwy'r Marc Pasio
Cynllunio	15		5
Gwneud	60		23
Adolygu	6		2
Cyfanswm	81		30

Mae trothwy'r marc pasio yn nodi'r sgôr isaf y mae'n rhaid i ddysgwyr ei chael er mwyn llwyddo ym mhob adran yn y prosiect.

Pennu gradd gyffredinol

Mae'r tabl isod yn nodi cyfanswm y marciau y mae'n rhaid eu cael er mwyn Pasio'r elfen asesu hon:

	Cyfanswm y Marciau	Canlyniad yr Asesiad
Prosiect Ymarferol	0 - 29	Methu
	30 - 81	Pasio

Rhaid i'r asesydd ddefnyddio'r tabl hwn i benderfynu a yw'r dysgwr wedi llwyddo i gael canlyniad Pasio dros dro. Dylid rhoi gwybod i'r dysgwr beth yw'r canlyniad dros dro hwn cyn pen wythnos iddo gwblhau'r asesiad, a dylid rhoi gwybod iddo mai canlyniad dros dro ydyw. Bydd canlyniadau dros dro yn ddarostyngedig i systemau sicrhau ansawdd mewnol ac allanol. Bydd y canlyniad terfynol yn cael ei gyflwyno i'r corff dyfarnu ac yn cael ei chyfuno â'r elfennau asesu eraill er mwyn dyfarnu gradd gyffredinol ar gyfer y cymhwyster, a fydd yn cael ei rhoi gan y corff dyfarnu.

5. Canllawiau'r Asesydd – Trafodaeth dan Arweiniad

Diben yr asesiad a throsolwg ohono

Bydd trafodaeth dan arweiniad yn cael ei chynnal â'r dysgwr mewn un eisteddiad sy'n cael ei amseru, ac mae'n cynnwys dau faes allweddol i'w hystyried:

- Y *maes cyntaf* i'w drafod fydd sut mae'r dysgwr wedi gwerthuso a phwysu a mesur ei brosiect ymarferol. Byddant yn ystyried y dasg/tasgau a gyflawnwyd ac yn rhoi trosolwg o'r canlynol:
 - pa mor effeithiol yr oedd wrth **gynllunio a pharatoi** i gyflawni tasgau cyffredin yn y maes crefft
 - ei berfformiad gwaith ei hun wrth gyflawni tasgau cyffredin yn y grefft hon – mewn perthynas â'r gofynion gosod a'i feini prawf llwyddo ei hun.Bydd gofyn i'r dysgwr bwysu a mesur ei gryfderau, a'r meysydd lle'r oedd wedi wynebu'r heriau mwyaf. Bydd yn dangos ym mha ffordd y byddai'n mynd ati i gyflawni gwaith yn y dyfodol a gwahanol dasgau gwaith yn y grefft ac ar draws y diwydiant adeiladu yn seiliedig ar ei waith pwysu a mesur.
- Bydd yr *ail faes* archwilio yn adeiladu ar werthusiad y dysgwr a bydd yn ystyried ei barodrwydd i weithio a sgiliau cyflogadwyedd yn y diwydiant adeiladu, yn ogystal ag ystyried llesiant meddyliol a chorfforol yn y diwydiant. Bydd y drafodaeth yn archwilio dealltwriaeth y dysgwr o ran:
 - ystyriaethau cyflogaeth a'r manteision a'r anfanteision y dylid eu hystyried wrth weithio yn maes crefft
 - cyfrifoldebau cyflogadwyedd penodol y bydd angen i'r dysgwr eu dangos wrth weithio yn y grefft
 - y dulliau y bydd y dysgwr yn eu defnyddio i reoli ei les, ei iechyd a'i lesiant ei hun wrth weithio yn y sector adeiladu.

Dylai'r drafodaeth ganolbwyntio ar **un** o'r ddau faes crefft sy'n rhan o'r prosiect ymarferol – bydd y grefft i ganolbwyntio arni yn y drafodaeth yn cael ei dewis gan y dysgwr a'i chytuno â'r asesydd cyn yr asesiad. Rhaid cael cadarnhad o gytundeb ar y grefft sydd i'w thrafod o leiaf bum diwrnod gwaith cyn y dyddiad trafod sydd wedi'i drefnu, er mwyn caniatáu amser i'r dysgwr a'r asesydd baratoi ar gyfer yr asesiad.

Diben yr asesiad hwn o'r drafodaeth dan arweiniad, sy'n digwydd yn fewnol ac a gaiff ei amseru, yw asesu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y dysgwr. Bydd hyn yn cael ei nodi wrth iddo bwysu a mesur sut aeth ati i gwblhau ei brosiect ymarferol, dibyniaethau ei arferion ar y rhai hynny mewn crefftau eraill ac ansawdd ei ddeilliannau.

Rhaid i ddysgwyr gael o leiaf 1 marc ym mhob elfen (1, 2a, 2b) o'r drafodaeth.

Dylai'r asesydd ofalu ei fod yn cefnogi trafodaeth sy'n cael ei harwain gan y dysgwr ac sy'n creu cysylltiadau rhwng y ddau faes sydd wedi cael eu nodi i'w harchwilio. Cyn y drafodaeth, dylai'r asesydd ystyried a pharatoi cyfres o gwestiynau a fydd yn helpu i strwythuro a chefnogi'r drafodaeth dan arweiniad. Dylai'r cwestiynau hyn ganolbwyntio ar y canlynol:

- **Gwerthuso a myfyrio** r ymgeisydd ar ei brosiect, e.e.
 - Beth ddigwyddodd?
 - Beth oeddech chi'n disgwyl fyddai'n digwydd?
 - Beth wnaeth eich synnu chi, neu beth wnaeth ddim mynd fel roeddech wedi'i ddisgwyl?
 - Beth fydddech chi'n ei wneud yn wahanol y tro nesaf?
 - Beth ddysgoch chi am sut yr ydych yn gweithio ac am eich ymarfer mewn perthynas â'r prosiect?
- Yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth mae wedi'u cael a fydd yn ei gefnogi o ran **eigyflogadwyedd ac wrth ddatblygu ei yrfa**, e.e.
 - Pa sgiliau oedd angen i chi eu defnyddio wrth weithio ag eraill, a pham eu bod yn bwysig?
 - Pa sgiliau fydd yn eich cynorthwyo ar daith barhaus eich gyrfa wrth weithio yn y crefftau adeiladu?
 - Pa ffactorau sy'n gallu effeithio ar lesiant meddyliol a chorfforol yn y diwydiant, a pha gymorth sydd ar gael?

Bydd y drafodaeth dan arweiniad yn cael ei marcio yn unol â'r meini prawf marcio a ddarparwyd yn y pecyn hwn.

Bydd yr asesiad hefyd yn cyfrannu at y cylch dysgu; gan atgyfnerthu dysgu drwy brofiad wrth i'r dysgwr bwysu a mesur a gwerthuso ei hun er mwyn ei helpu i ddatblygu yn ei grefft a'i sgiliau ehangach.

Manylion asesu

Mae'r fanyleb asesu isod yn rhoi trosolwg lefel uchel o'r deilliannau sy'n cael eu cynnwys yn y drafodaeth dan arweiniad.

Gwybodaeth, Sgiliau a Dealltwriaeth:	Uned a Deilliant Dysgu
Cynnwys craidd (meini prawf asesu)	
1.1 Y prif grefftau yn y diwydiant adeiladu	102
1.2 Y prif grefftau yn y diwydiant gwasanaethau adeiladu	(LO1)
3.3 Cysylltiadau gweithio effeithiol a chynhyrchiol rhwng crefftau	103 (LO3)
1.1 Contractau cyflogaeth ar gael yn y diwydiant 1.2 Dod o hyd i gyfleoedd gwaith presennol a phrentisiaethau sydd ar gael yn y diwydiant 2.1 Ymddygiad ac etheg gwaith 2.2 Technegau datrys problemau. 2.3 Sgiliau rhyngpersonol a gweithio mewn tîm.	104 (LO1, LO2)
2.3 Lles personol	105 (LO2)
Maes crefft	
Gwerthuso yn erbyn safonau. Dadansoddiad o berfformiad.	107 (LO5) 108 (LO4) 109 (LO5) 110 (LO5) 111 (LO4) 112 (LO4) 113 (LO6) 114 (LO6) 115 (LO4) 116 (LO5)

Marcio a chanlyniadau asesiadau

Mae'r asesiad hwn yn cyfrannu 20% tuag at gyfanswm gradd gyffredinol y cymhwyster.

Rhaid i ddysgwyr gael canlyniad pasio yn yr asesiad hwn. **Rhaid i ddysgwyr gael o leiaf 1 marc ym mhob elfen (1, 2a, 2b)** o'r Drafodaeth dan Arweiniad.

Defnyddiwch y tabl isod i bennu a yw'r dysgwr wedi llwyddo i gael canlyniad Pasio:

	Cyfanswm y Marciau	Canlyniad Asesu
Trafodaeth dan Arweiniad	0-2	Methu
	3 - 9	Pasio

Grid Marcio

Bydd aseswyr yn defnyddio'r grid isod

1. Gwerthuso - Disgrifyddion marcio	Marciau a gafwyd
<p>Fe wnaeth y dysgwr ddangos</p> <ul style="list-style-type: none">lefel syifaenol wrth werthuso'r dasg a gyflawnodd. Dangosodd y dysgwr ryw faint o fyfyrddod byr sut aeth ati i gyflawni'r tasgau, drwy gynllunio a pharatoi a thrwy gwblhau'r elfennau – ac mae wedi mynegi rhai cryfderau a heriau personol yn fyr. Mae'r dysgwr, wedi dangos ceisiadau cyfyngedig i gysylltu meysydd sy'n gryfder ac yn her â deilliannau ansawdd gorffenedig sy'n deillio o'r dasg/tasgau. Mae'r dysgwr yn gwneud cysylltiadau cyfyngedig â chwblhau'r dasg/tasgau a'i ffyrdd o weithio yn y dyfodol; os bydd cysylltiadau'n cael eu nodi – maent yn brin o fanylion ac yn dangos gallu cyfyngedig i'r dysgwr drosglwyddo ei sgiliau i amrywiaeth o sefyllfaoedd. <p>neu</p> <p>Fe wnaeth y dysgwr ddangos</p>	1
<ul style="list-style-type: none">Lefel ystyrlon wrth werthuso'r tasgau a gyflawnodd. Roedd y dysgwr wedi dangos ei fod wedi pwysu a mesur yn benodol sut roedd wedi cyflawni'r tasgau, drwy gynllunio a pharatoi a thrwy'r elfennau gwneud – gan nodi cryfderau a heriau personol, ac ymgais i gysylltu'r meysydd hyn â'r deilliannau ansawdd a brofwyd. Mae'r dysgwr yn cysylltu cwblhau'r dasg (tasgau) â'r broses o ystyried ffyrdd o weithio yn y dyfodol. Mae'r cysylltiadau a nodir yn cynnwys manylion ac yn dangos ymateb ystyrlon gan y dysgwr wrth drosglwyddo'r hyn mae wedi'i ddysgu wrth gyflawni ei dasgau i wella'i ffordd o weithio yn y dyfodol. <p>neu</p> <p>Fe wnaeth y dysgwr ddangos</p>	2
<ul style="list-style-type: none">lefel gynhwysfawr wrth werthuso'r tasgau a gyflawnodd. Fe wnaeth y dysgwr ddangos lefel gydlynol a chyflawn wrth bwysu a mesur sut aeth ati i gyflawni'r tasgau, drwy ei waith cynllunio a pharatoi a thrwy wneud yr elfennau – llwyddodd i werthuso amrywiaeth o gryfderau a heriau personol, a nodi synergedd clir rhwng y rhain a deilliannau ansawdd terfynol y dasg/tasgau. Mae'r dysgwr yn amlinellu'n gryno sut mae cwblhau'r dasg/tasgau wedi dylanwadu ar ei sgiliau ei hun a sut y bydd yn trosglwyddo hyn i'w ffyrdd o weithio yn y dyfodol. Mae'r cysylltiadau hyn yn cael eu cyflwyno'n fanwl ac maent yn egluro'n glir sut maent wedi cael eu hystyried a'r rhesymau pam bydd yn mynd ati i ddatblygu ffyrdd o weithio yn y dyfodol.	3

2a. Cyflogaeth a Chyfathrebu - Disgrifyddion marcio	Marciau a gafwyd
<p>Fe wnaeth y dysgwr ddangos</p> <ul style="list-style-type: none"> • amlinelliad sylyfaenol o'i ystyriaethau o ran cyflogaeth a pharodrwydd i weithio yn y dyfodol. Roedd y dysgwr wedi datgan nifer o ystyriaethau a chyfleoedd cyflogaeth, ond ychedig o gysylltiadau â wnaed â'i brofiadau a'i allu ei hun. Darperir nifer o sgiliau ac ystyriaethau cyflogadwyedd yn fyr, ond gyda chysylltiadau cyfyngedig wedi'u gwneud o ran sut y byddai'n defnyddio'r rhain i feithrin ac i gynnal perthynas weithio effeithiol â chrefftau eraill. 	1
<p>neu Fe wnaeth y dysgwr ddangos</p> <ul style="list-style-type: none"> • trosolwg manwl o'i ystyriaethau o ran cyflogaeth a pharodrwydd i weithio yn y dyfodol. Roedd y dysgwr wedi manylu ar nifer o ystyriaethau a chyfleoedd cyflogaeth, gan nodi manylion cryno. Darperir nifer o sgiliau ac ystyriaethau cyflogadwyedd, gyda chysylltiadau clir wedi'u gwneud o ran sut y byddai'n defnyddio'r rhain i feithrin ac i gynnal perthynas weithio effeithiol â chrefftau eraill. 	2
<p>neu Fe wnaeth y dysgwr ddangos</p> <ul style="list-style-type: none"> • adroddiad cynhwysfawr o'i ystyriaethau o ran cyflogaeth a pharodrwydd i weithio yn y dyfodol. Fe wnaeth y dysgwr archwilio'n ystyrion amrywiaeth o wahanol ystyriaethau a chyfleoedd cyflogaeth, gan ddangos dealltwriaeth ddatblygedig o'u pwysigrwydd. Edrychir ar ystod eang o sgiliau ac ystyriaethau cyflogadwyedd, gyda dealltwriaeth ddatblygedig gan y dysgwr o sut mae ei sgiliau presennol yn bodloni'r gofynion hyn a sut y byddai'n defnyddio'r rhain i feithrin ac i gynnal perthynas weithio effeithiol â chrefftau eraill. 	3

2b. Llesiant - Disgrifyddion marcio	Marciau a gafwyd
<p>Fe wnaeth y dysgwr ddangos</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'r dysgwr yn dangos rhywfaint o ystyriaeth i'w les corfforol a meddyliol ei hun, iechyd a llesiant wrth weithio yn y sector adeiladu, a'r cymorth sydd ar gael, ond mae'r rhain yn cael eu darparu'n bennaf fel datganiadau cyffredinol nad ydynt yn rhoi llawer o ystyriaeth o safbwynt y dysgwr ei hun. 	1
<p>neu</p> <p>Fe wnaeth y dysgwr ddangos</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'r dysgwr yn dangos ystyriaeth o'i les corfforol a meddyliol ei hun, ei iechyd a'i les wrth weithio yn y sector adeiladu, a'r cymorth sydd ar gael, gyda dull gweithredu cydlynol sy'n dangos sut bydd y dysgwr yn ceisio rheoli'r meysydd hyn wrth iddo ddatblygu ei yrfa yn y sector adeiladu ymhellach. 	2
<p>neu</p> <p>Fe wnaeth y dysgwr ddangos</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'r dysgwr yn dangos dealltwriaeth amlwg o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ei les corfforol a meddyliol ei hun, ei iechyd a'i lesiant wrth weithio yn y sector adeiladu, a'r cymorth sydd ar gael. Mae'r dysgwr yn dangos dealltwriaeth o ymddygiadau bwlio a dulliau uwchgyfeirio priodol yn i godi ymwybyddiaeth o ymddygiad amhriodol. Mae'n darparu dull gweithredu strwythuredig ac ystyrion, sy'n dangos sut y bydd yn rheoli'r meysydd hyn wrth iddo ddatblygu ei yrfa ymhellach yn y sector. 	3

Amodau Asesu

Dylid cynnal y drafodaeth yn rhywle lle na fydd unrhyw un nac unrhyw beth yn tarfu ar y drafodaeth, ac mewn lle cefnogol a chyfarwydd i'r dysgwr yn ddefnyddiol.

Rheolaethau Asesu

Mae'r drafodaeth dan arweiniad yn asesiad dan reolaeth sy'n cael ei amseru, felly mae gofyn i asesydd y ganolfan a'r dysgwr baratoi a chynllunio. Bydd arweiniad ynghylch yr asesiad hwn ar gael i ganolfannau ac i ddysgwyr, er mwyn sicrhau eu bod yn deall ac yn cyflawni eu dyletswyddau a'u rhwymedigaethau priodol ar gyfer yr asesiad hwn yn gywir.

Amser a Ganiateir

Mae amser penodedig o **40 munud** ar gyfer asesu'r drafodaeth dan arweiniad. Ceir ychwanegu hyd at 5 munud er mwyn caniatáu i'r dysgwr gwblhau ei ateb terfynol.

Pan fydd gofyn cael addasiad rhesymol ar gyfer asesiad (ar gyfer dysgwyr â gofyn(ion) penodol) neu gyfieithydd, bydd yn rhaid cytuno ar yr amrywiad amser ychwanegol a rhoi gwybod am hynny cyn yr asesiad yn unol â pholisi addasiadau rhesymol y Consortiwm.

Canllawiau a Dogfennau

Bydd y canllawiau cysylltiedig canlynol yn cyd-fynd â'r asesiad hwn:

- **Cyfarwyddiadau i'r dysgwr:** mae'r rhain yn Adran 2 y ddogfen hon, er mwyn helpu'r dysgwr i ddeall a chael gwybodaeth berthnasol am yr asesiad. **Rhaid rhannu'r cyfarwyddiadau â'r dysgwr o leiaf 5 diwrnod cyn yr asesiad er mwyn iddo allu ymgyswgu â'r pynciau y bydd yn cael ei holi yn eu cylch.** Nod y cyfarwyddiadau yw helpu'r dysgwr i baratoi'n drylwyr ar gyfer yr asesiad. Mae'n bosibl darllen y ddogfen hon ar y cyd â briff y dysgwr er mwyn i'r dysgwr fagu hyder yn barod ar gyfer y briff llafar terfynol gan yr asesydd cyn yr asesiad. Bydd yn tynnu sylw at hawl y dysgwr i apelio yn erbyn penderfyniadau asesu.
- **Canllawiau'r asesydd:** mae'r rhain ar gael yn y pecyn asesu hwn, ac mae'n cyflwyno'r wybodaeth berthnasol er mwyn i asesydd y ganolfan gynnal yr asesiad yn unol â gofynion y corff dyfarnu. Mae ffurflenni cofnodi ar gael yn yr Atodiad 2 er mwyn hwyluso asesu a sicrhau trywydd archwilio. Bydd yn rhoi arweiniad i aseswyr er mwyn eu galluogi i ddatblygu amrywiaeth o gwestiynau strwythuredig.
- **Tystiolaeth prosiect y dysgwr:** i'w rhoi i'r asesydd cyn y drafodaeth.

Cyfle cyfartal ac amrywiaeth

Mae'r Consortiwm yn disgwyl i unigolion gael mynediad cyfartal at yr asesiad hwn, waeth beth fo'u rhyw, statws priodasol, oedran, crefydd, lliw, hil, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu anabledd. Mae hyn yn golygu cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb perthnasol, yn y bôn.

Mae gofyn i ganolfannau gael polisi i sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethu yn digwydd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, nac o ganlyniad i bwysau gan gyrff eraill. Dylai'r polisi fod yn berthnasol i bob is-Ganolfan a dylai fod trefniadau ar waith i fonitro pa mor ddefnyddiol yw'r polisi a sut mae'n cael ei ddefnyddio. Petai cwynion ynghylch materion anghydraddoldeb ddim yn cael eu datrys yn foddhaol gan y Ganolfan, er mor annhebygol yw hynny; rhaid tynnu sylw dysgwyr at eu hawl i apelio i'r Consortiwm drwy'r trefniadau sydd wedi'u hamlinellu yn ein Polisi Apelio.

Lefel yr iaith

Mae'r asesiad ar gyfer dysgwyr yng Nghymru. Nid prawf o ddealltwriaeth Cymraeg na Saesneg yw'r asesiad. Felly, heblaw am y termau technegol sy'n briodol i ddiben a lefel yr asesiad, dylid defnyddio iaith sydd ar lefel briodol i'r dysgwr. Hefyd, dylai aseswyr gofio nad Cymraeg/Saesneg yw iaith gyntaf nac iaith ychwanegol pob dysgwr, wrth ddewis eu hiaith.

Paratoi a Chynllunio ar gyfer y Draffodaeth dan Arweiniad

Cyn yr asesiad, bydd y dysgwr yn cael rhybudd priodol o ddyddiad ei draffodaeth, o **5 diwrnod gwaith** o leiaf er mwyn iddo gael amser i baratoi. Mae'n rhaid i'r asesydd gynllunio'r draffodaeth dan arweiniad ac adolygu tystiolaeth y prosiect cyn cynnal yr asesiad. Bydd dysgwyr yn cael gwybod am eu hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad asesu.

Bydd y draffodaeth dan arweiniad yn cael ei chynnal ar sail un i un rhwng yr asesydd a'r dysgwr yn unig. Caiff aelodau o staff eraill fod yn bresennol mewn amgylchiadau fel sicrhau ansawdd mewnol/allanol, addasiadau rhesymol neu gyfieithu. Ond, rhaid cytuno i hyn ymlaen llaw, yn unol â pholisi addasiadau rhesymol y Consortiwm. Bydd gofyn i'r dysgwyr fod yn gwbl ymwybodol o drefniadau asesu'r cymhwyster o'r dechrau. Bydd pecyn ar gael i ddysgwyr i'w helpu i baratoi ar gyfer yr asesiad. Bydd hyn yn annog ymarfer myfyriol ac yn creu cysylltiadau â'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a fydd yn rhan o'r asesiad. Bydd hyn yn hwyluso dysgu drwy brofiad drwy gydol yr asesiadau.

Canllawiau: *Argymhellir yn gryf bod y dysgwyr yn ymgyswngedig â chael eu recordio yn barhaus (ee fel rhan o asesu ffurfiannol) er mwyn iddynt arfer â'r broses. Bydd hyn yn helpu i leddfu nerfau'r dysgwyr yn ystod yr asesiad hwn, ac mae'n eu helpu i baratoi hefyd.*

Cwestiynau a Phwyntiau Trafod

Dylai'r asesydd ystyried y mathau o gwestiynau a fyddai'n cefnogi'r draffodaeth cyn yr asesiad. Mewn llawer o achosion, ni fydd cwestiynau agoriadol yr asesydd yn archwilio gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwr yn llawn, felly efallai y bydd angen cwestiynau dilynol er mwyn cael rhagor o dystiolaeth. Fodd bynnag, mae'n bwysig nad yw'r cwestiynau a baratowyd yn arwain y dysgwr – nac yn cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n creu strwythur rhy gadarn ar gyfer y draffodaeth ar sail cwestiynau sydd wedi'u pennu ymlaen llaw. Dylai'r asesydd ganiatáu i'r draffodaeth ddatblygu'n naturiol a defnyddio'r cwestiynau y mae wedi'u paratoi ymlaen llaw yn briodol wrth i'r draffodaeth fynd yn ei blaen. Dylid ystyried yr agweddau diogelwch critigol a allai godi wrth draffod prosiectau ymarferol.

Sut mae'r Prosiect yn Cyfrannu at y Draffodaeth

Mae tystiolaeth y prosiect yn rhoi'r cyd-destun ar gyfer y draffodaeth dan arweiniad; felly, dylai'r asesydd baratoi tystiolaeth y prosiect yn briodol a dylai fod ar gael yn ystod yr asesiad er mwyn i'r dysgwr allu canfod unrhyw dystiolaeth benodol.

Er bod y prosiectau ymarferol yn sail i'r draffodaeth dan arweiniad, caiff yr asesiad hwn ei raddio yn annibynnol - felly ni ddylai'r asesydd (pan fo hynny'n briodol) gosbi'r dysgwr ddwywaith am ei waith prosiect wrth asesu'r draffodaeth dan arweiniad. Yn hytrach, mae'r draffodaeth dan arweiniad yn rhoi cyfle i'r dysgwr ddangos pa mor bell mae wedi dod ers cyflwyno'r prosiect ymarferol, gwerthuso cryfderau a gwendidau, a rhoi cyd-destun ar gyfer y pwyntiau trafod.

Deunyddiau

Bydd angen cynllun prosiect a dogfennau adolygu'r dysgwr ar gyfer yr asesiad hwn o'r draffodaeth dan arweiniad. Hefyd, bydd angen dyfais i recordio'r draffodaeth yn iawn.

Camymddwyn academaidd

Pan fydd yr asesydd yn amau camymarfer gan y ganolfan/dysgwr – gan gynnwys camymddwyn academaidd neu gydgyllwynio, dylid rhoi gwybod am hyn yn unol â pholisi camymarfer y Consortiwm, sydd ar gael ar wefan City & Guilds.

Paramedrau Asesu: Cyflwyno'r Drafodaeth dan Arweiniad

Rhaid i'r asesydd:

- sicrhau bod y dysgwr wedi cael briff llawn ynghylch diben y drafodaeth, yn arbennig y cynnwys a fydd yn cael sylw, a'r math o wybodaeth fydd ei hangen ar yr asesydd a sut y penderfynir ar ganlyniadau asesiadau
- sicrhau bod gan y dysgwr unrhyw ddogfennau perthnasol wrth law cyn dechrau'r drafodaeth dan arweiniad,
- sicrhau bod unrhyw ofynion ychwanegol y bydd y darparwr hyfforddiant yn tynnu sylw atynt yn cael eu hystyried yn unol â'r polisi Addasiadau Rhesymol,
- gwneud penderfyniadau asesu cyson a diduedd, drwy ddefnyddio pwyntiau trafod wedi'u cynllunio a'r meini prawf cymhwyso, er mwyn sicrhau cysondeb a gallu cymharu penderfyniadau asesu dros gyfnod o amser,
- ceisio gwneud i'r dysgwr deimlo'n gartrefol, egluro'r fformat, yr amser sydd ar gael a diben y ffurflenni cofnodi.

Paramedrau Asesu: Yn ystod y Drafodaeth dan Arweiniad

Dylai'r asesydd:

- yn ddelfrydol, rhoi sylw i'r pwyntiau y mae'r dysgwr yn debygol o fod yn hyderus wrth ateb yn gyntaf, cyn symud ymlaen at unrhyw feysydd sy'n fwy heriol. Bydd hyn yn arwain at ddull fesul cam a bydd yn helpu i ddynodi marc a chael amcan o allu'r dysgwr
- defnyddio cwestiynau agored fel 'pwy', 'beth', 'sut', 'ble' a 'phryd' er mwyn rhoi cyfle i'r dysgwr ddangos ei gyrhaeddiad
- gofyn cwestiynau atodol, gan roi cyfle i'r dysgwr archwilio'r pwnc trafod yn llawn. Dylai'r cwestiynau fod yn ystyriol, yn berthnasol ac wedi'u gosod ar y lefel briodol.
- trafod gweithgareddau'r dysgwr ag ef, gan chwilio am dystiolaeth am wybodaeth, gweithdrefnau a phrosesau penodol, a gwneud penderfyniadau, yn ogystal â'i sgiliau. Dylai'r broses o holi cwestiynau drosglwyddo'r awenau'n raddol i'r dysgwr. Byddech yn disgwyl i'r dysgwr arwain y drafodaeth ar ôl y briff/cwestiynau agoriadol ar y dechrau
- nodi meysydd pwnc mewn ymatebion y gellir eu trafod yn fwy manwl yn nes ymlaen yn y drafodaeth.

Dylai'r drafodaeth bob amser fod yn ymwneud â'r maes pwnc perthnasol. Pan fydd hi'n bosibl dod i farn o'r fath, dylai'r drafodaeth symud ymlaen i'r pwnc nesaf. Pan fydd pob pwynt trafod wedi cael sylw, dylid dod â'r drafodaeth i ben. Dylid arwain y dysgwr yn ôl ar y trywydd iawn os bydd ei ymatebion yn mynd ar y trywydd anghywir. Cadwch gofnod cywir o amser dechrau'r drafodaeth dan arweiniad a nodi am ba mor hir y gwnaeth bara. Mae'r drafodaeth yn canolbwyntio ar ddau faes – a dylai'r drafodaeth geisio sicrhau amser cyfartal (oddeutu 20 munud) ar bob un o'r meysydd hyn.

Beth i'w osgoi yn ystod y drafodaeth dan arweiniad:

- defnyddio un math o gwestiwn drwy gydol y drafodaeth
- ateb y cwestiwn eich hun yn hytrach nag ymhelaethu ar y cwestiwn er mwyn cael ymateb
- gofyn gormod o gwestiynau i'r dysgwr, gan beidio â rhoi digon o amser iddo feddwl nac ateb yn llawn
- diystyru atebion
- treulio gormod o amser ar un maes trafod, gan arwain at lai o amser ar gyfer meysydd eraill
- gofyn cwestiynau rhy gymhleth yn rhy gynnar yn ystod y drafodaeth,

- osgoi defnyddio cwestiynau caeedig oni bai fod angen ateb 'ie' neu 'na' yn benodol. Gall cwestiynau caeedig wneud i ddysgwyr 'rewi' neu gael 'bloc', a byddai hyn yn hyd yn oed mwy tebygol o dan bwysau amodau arholiad.

Gofynion tystiolaeth

Trywydd Archwilio

Rhaid recordio'r drafodaeth dan arweiniad (ddim yn weledol). Dylai'r ganolfan sicrhau bod y drafodaeth yn cael ei recordio a'i storio mewn ffordd sy'n cydymffurfio â GDPR. Dylid sefydlu'r trefniadau hyn ymlaen llaw â'r ganolfan, yr asesydd a'r dysgwr.

Rhaid cadw pob cofnod, hynny yw, ffurflenni a recordiadau, yn iawn ac yn ddiogel. Hefyd, rhaid i'r dysgwr lofnodi a dyddio'r ffurflenni sy'n cyd-fynd â'r recordiad er mwyn datgan dilysrwydd. Bydd gofyn i'r ffurflenni wedi'u cwblhau, sy'n cyd-fynd â'r recordiad, fod ar gael i'w hadolygu a'u samplu fel rhan o waith sicrhau ansawdd allanol.

Mae ffurflenni cofnodi wedi'u rhoi i'r asesydd er mwyn crynhoi'r atebion a roddir, rhoi adborth a chanlyniad dros dro. Dylid rhoi gwybod i'r dysgwr beth yw'r canlyniad dros dro hon cyn pen wythnos iddo gwblhau'r asesiad, a dylid rhoi gwybod iddo mai canlyniad dros dro ydyw. Bydd canlyniadau dros dro yn ddarostyngedig i systemau sicrhau ansawdd mewnol ac allanol. Bydd canlyniadau yn cael eu cyflwyno i'r corff dyfarnu a bydd canlyniad terfynol yr asesiad yn cael ei roi gan y corff dyfarnu.

Ailsefyll/ailgyflwyno

Os bydd dysgwyr yn methu â llwyddo yn yr asesiad, caniateir ei ail-sefyll.

Gall dysgwyr gyflawni'r ystod lawn o farciau a graddau sydd ar gael wrth ailsefyll.

Wrth ailsefyll, mae'n rhaid i ddysgwyr ailsefyll yr asesiad yn ei gyfanrwydd – gan ymdrin â phob maes sy'n ymwneud â gwerthuso, cyflogaeth a lles.

Os nad yw dysgwr yn bodloni'r gofynion ar gyfer cyrraedd trothwy pasio yn seiliedig ar y meini prawf marcio, dylai'r ganolfan weithio gyda'r dysgwr i roi sylw i'r meini prawf a fethwyd a cheisio canfod cyfle i wella a'i gefnogi i baratoi i gyrraedd y safon sy'n ofynnol.

Os nad yw dysgwr yn hapus â deilliannau ei asesiad, dylai gael gwybod am ei hawl i apelio.

Rhaid i ganolfannau gofnodi unrhyw gamau a gymerir a/neu unrhyw gefnogaeth ychwanegol a roddir i'r dysgwr.

6. Canlyniadau'r Cymhwyster

Canlyniadau'r cymhwyster hwn yw **Pasio, Methu.**

Rhaid i ddysgwyr gael canlyniad Pasio ym mhob asesiad i gael tystysgrif Pasio ar gyfer y cymhwyster hwn.

Cyflwyno canlyniadau a chanlyniad y cymhwyster

Mae gofyn i'r dysgwr basio pob asesiad er mwyn cael tystysgrif Pasio ar gyfer y cymhwyster. Rhaid cyflwyno Deilliannau'r prosiect ymarferol a'r drafodaeth dan arweiniad i Walled Garden City & Guilds.

Mae'r tabl isod yn nodi beth mae'n rhaid ei gyflawni ar gyfer pob asesiad, a sut bydd y canlyniadau'n cael eu cyflwyno.

Asesiad	Beth mae angen ei wneud er mwyn cyflawni	Cyflwyno'r canlyniad
Asesu ar y sgrin	Bydd y dysgwr yn cwblhau asesiad ar-sgrîn yn defnyddio llwyfan E-volve City & Guilds. Caiff asesiadau eu marcio'n awtomatig a bydd canlyniad yn cael ei roi.	Asesiad yn cael ei awto-farcio a'r canlyniad yn cael ei roi gan City & Guilds.
Prosiect Ymarferol	<p>Mae'r ganolfan yn rhoi marciau am adrannau cynllunio, perfformio a gwerthuso'r prosiect ymarferol gan ddefnyddio'r meini prawf marcio i asesu perfformiad yn y prosiect drwyddo draw.</p> <p>Mae'r ganolfan yn defnyddio marc cyffredinol y prosiect i nodi'r canlyniad a gafwyd gan ddefnyddio'r tabl "Penderfynu ar y canlyniad cyffredinol".</p>	Y ganolfan yn cyflwyno'r canlyniad i City & Guilds
Trafodaeth dan Arweiniad	<p>Mae'r ganolfan yn rhoi marciau gan ddefnyddio'r meini prawf marcio i asesu perfformiad yn y drafodaeth dan arweiniad.</p> <p>Defnyddir y tabl canlyniad yn yr adran am y drafodaeth dan arweiniad yn y ddogfen hon, i drosi'r marc yn ganlyniad.</p>	Y ganolfan yn cyflwyno'r canlyniad i City & Guilds

Bydd City & Guilds yn cadarnhau y cafwyd canlyniad Pasio ym mhob asesiad ac yn dyfarnu canlyniad cyffredinol terfynol ar gyfer y cymhwyster. Bydd canlyniad terfynol y dysgwr yn cael ei hysbysu ar ôl cwblhau proses o sicrhau ansawdd allanol ac o fewn wyth wythnos i'r dyddiad y bydd y ganolfan yn cyflwyno canlyniadau terfynol y prosiect ymarferol a'r drafodaeth dan arweiniad (ac ar ôl cwblhau'r asesiad ar-sgrîn yn llwyddiannus) i City & Guilds.

Atodiadau

1. Asesiad ar y sgrin
2. Ffurflenni Cofnodi'r Drafodaeth Dan Arweiniad

1. Asesu ar y sgrin

Gellir dod o hyd i'r asesiad ar-sgrîn enghreifftiol ar [wefan y Consortiwm](#).

2. Ffurflenni Cofnodi'r Draffodaeth Dan Arweiniad

Dylid nodi bod rhai cwestiynau enghreifftiol wedi eu darparu – enghreifftiau yw'r rhain yn unig a dylai'r asesydd gynnal y draffodaeth drwy adael i'r ymgeisydd arwain a defnyddio cwestiynau sy'n adlewyrchu'r draffodaeth wrth iddi symud ymlaen.

Enw'r ymgeisydd		Rhif y ganolfan	
Rhif yr ymgeisydd		Enw'r asesydd	
Dyddiad yr asesiad			
Maes crefft o ddewis			
<p>1. Gwerthusiad</p> <p>Traffodaeth yn ymwneud â:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwerthuso a myfyrw'r ymgeisydd ar ei brosiect, ee <ul style="list-style-type: none"> - Beth ddigwyddodd? - Beth oeddech chi'n disgwyl fyddai'n digwydd? - Beth wnaeth eich synnu chi, neu beth wnaeth ddim mynd fel roeddech wedi'i ddisgwyl? - Beth fydddech chi'n ei wneud yn wahanol y tro nesaf? - Beth ddysgoch chi am sut yr ydych yn gweithio ac am eich ymarfer yn y prosiect? 			
Ymateb yr Ymgeisydd:			Marc
			/3

2a Cyflogaeth a Chyfathrebu

Trafodaeth yn ymwneud â:

Yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a enillodd y dysgwr fydd yn eu cynorthwyo i ddatblygu eu cyflogadwyedd a'u gyrfa'n ehangach, ee

- Pa sgiliau oedd angen i chi eu defnyddio wrth weithio ag eraill, a pham eu bod yn bwysig? Sut byddech chi'n defnyddio'r rhain pan rydych yn gweithio â chrefftau eraill i gynnal perthynas waith effeithiol?
- Pa sgiliau fydd yn eich cynorthwyo yn eich gyrfa yn y dyfodol wrth weithio yn y fasnach adeiladu?

Ymateb yr Ymgeisydd:

Marc

/3

2b Llesiant

Trafodaeth yn ymwneud â:

Yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd ganddynt o ran y ffactorau sy'n gallu effeithio ar les meddyliol a chorfforol yn y diwydiant adeiladu, ee

- Pa ffactorau sy'n gallu effeithio ar lesiant meddyliol a chorfforol yn y diwydiant, a pha gymorth sydd ar gael?
- Beth allai gael ei ystyried yn fwlio, a sut byddech chi'n ei uwchgyfeirio pe baech chi'n ei weld yn digwydd yn y gweithle?

Ymateb yr Ymgeisydd:

Marc

/3

--	--

Adborth o'r asesiad:

Canlyniad terfynol		
	Cyfanswm marciau (1 Gwerthuso)	/3
	Cyfanswm marciau (2a Cyflogadwyedd a Chyfathrebu)	/3
	Cyfanswm marciau (2b Lles)	/3
	Canlyniad a roddwyd	

Aseydd

llofnod: _____

Dyddiad: _____

Llofnod y dysgwr: _____

Dyddiad: _____

Lleoliad: _____

Amser Dechrau: _____

Parhad (Munudau): _____